Cynllun Lle

# Crughywel

Mehefin 2024



Paratowyd y ddogfen hon ar ran :

Cyngor Tref Crughywel & Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Paratowyd y ddogfen hon gan :

Chris Jones
Regeneration

15 Stryd Nevill
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5AA

chris@chrisjones.studio
Ff: 01873 880666
S: 07968943084

Roberts Limbrick
Architects

1 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4P

mail@robertslimbrick.com

0333 405 500

Bannau Brycheiniog

chris jones

Roberts Limbrick

Project: 10983
Date: Mehefin 2024
Version: 2

# Cynnwys


Rhagair . . . . . 1

**Cyflwyniad** **6**
- Diben . . . . . 7
- Nodau ac Amcanion . . . . . 8
- Lle mae Crughywel? . . . . . 9
- Cyd-destun a Lleoliad . . . . . 10
- Proses y Cynllun . . . . . 11
- Pam fod ar Grughywel angen Cynllun Lle? . . 12

**Dadansoddiad o'r Lle** **14**
- Polisi, Astudiaethau, Data a Lle . . . . . 15
- Heriau a Chyfleoedd . . . . . 29
- Dadansoddiad o'r Lle . . . . . 39
- Trafnidiaeth a Symud . . . . . 41
- Llwybrau i Gerddwyr . . . . . 42
- Rhwydwaith Teithio Llesol Arfaethedig . . . . . 43
- Tirnodau a Chyrchfannau Allweddol . . . . . 44
- Seilwaith Gwyrdd a Mynediad . . . . . 45
- Ardal Perygl Llifogydd (Afon Wysg) . . . . . 46
- Dadansoddiad o'r Cyd-destun Adeiledig . . 47
- Built Context Analysis . . . . . 50
- Heriau & Chyfleoedd . . . . . 51
- Dadansoddiad SWOT - Pobl . . . . . 53
- Dadansoddiad SWOT - Lle . . . . . 55

**Yr hyn a Ddywedodd Pobl – Angen** **58**
- Yr Hyn a Ddywedodd Pobl . . . . . 59
- Yr Hyn a Ddywedodd Pobl Wrthym . . . . . 60

**Themâu sy'n Dod i'r Amlwg** **64**
- Themâu sy'n Dod i'r Amlwg . . . . . 65

**Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion** **68**
- Ein Gweledigaeth, 2039 . . . . . 69
- Gweledigaeth . . . . . 69
- Amcanion . . . . . 69
- Gweledigaeth . . . . . 70
- Cefnogi'r Bannau . . . . . 70

**Cynigion y Cynllun Lle** **72**
- Cynigion - Hinsawdd . . . . . 73
- Cynigion - Dŵr . . . . . 74
- Cynigion - Natur . . . . . 75
- Cynigion - Pobl . . . . . 77
- Cynigion - Lle . . . . . 79
- Cynigion . . . . . 88

**Yr Hyn a Ddywedodd Pobl - Blaenoriaethau** **92**
- Yr hyn a ddywedodd pobl - Blaenoriaethau . . . 93

**Dangos Llwyddiant** **102**
- Dangos Llwyddiant . . . . . 103

**Ffyrdd o Weithio** **108**
- Ffyrdd o Weithio . . . . . 109

# Rhagair

## Croeso i Gynllun Lle Crughywel 2024-39

Mae Cyngor Tref Crughywel wedi ffurfio partneriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i lunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol ein tref am y 15 mlynedd nesaf.

Dechreuasom y broses yn hydref 2023 gyda chyfres o ymgyngoriadau cyhoeddus ac rydym wedi cynnal ymgyngoriadau pellach wrth i'n cynllun ddatblygu. Gallwch weld disgrifiad o'r hyn a glywsom ar dudalennau 57-60. Mabwysiadodd y Cyngor Tref y fersiwn derfynol hon ym mis Mehefin 2024.

Rydym yn gweld y Cynllun hwn fel un seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrth iddynt baratoi eu Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd wedyn yn ffurfio rhan o'r sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio yn ein tref yn y dyfodol.

### Mae Ein Tref yn Dref lwyddiannus

Yn gyffredinol, mae gan drigolion Crughywel farn gadarnhaol o'u tref. Mae'r cynllun yn nodi ein dyheadau ar gyfer datblygu'r dref yn y dyfodol gan adeiladu ar yr hyn sy'n dda a cheisio mynd i'r afael â'r problemau sydd gennym.

### Mae Ein Tref yn Dref sy'n Heneiddio

Mae gan Grughywel boblogaeth gyffredinol hŷn na chyfartaledd Cymru. Mae'r demograffeg 17-35 oed wedi crebachu yn ystod y degawd diwethaf. Er bod pobl yn gadael y dref ar ddechrau eu hoes fel oedolion am addysg uwch ac addysg bellach a gwaith, mae llawer yn dychwelyd pan fyddant ar fin dechrau teuluoedd. Mae arnom eisiau i'r dref ddiwallu anghenion pob grŵp oedran a bod yn fan lle gall preswylwyr o bob oed fyw a gweithio a mwynhau eu hunain.



# Rhagair

## Tai

Mae Crughywel yn un o'r llefydd drutaf i brynu cartref yng Nghymru. Mae angen mwy o dai cymdeithasol a fforddiadwy arnom yn y dref. Mae yna hefyd lefel annisgwyl o uchel o dai is-safonol yn y dref.

Mae cyfran uchel o aelwydydd un person a dau berson yn y dref a galw uchel amdanynt o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Nid oes angen mwy o gartrefi "drudfawr" pedair ystafell wely arnom. Mae angen i ddatblygiadau newydd ganolbwyntio ar yr angen am fwy o dai fforddiadwy ac unedau i ateb y galw am gartrefi llai - clywsom hefyd yn ein hymgyngoriadau gan bobl oedd yn dymuno aros yn y dref yn eu blynyddoedd hyn, ond na allent ddod o hyd i gartrefi i "symud i lawr" iddynt. Pe bai hynny'n bosibl, byddai hyn o bosibl yn rhyddhau mwy o gartrefi teuluol i'r farchnad.

Gallai rhywfaint o'r angen tai gael eu diwallu drwy lenwi safleoedd "tir llwyd". Gan ein bod mewn ardal o harddwch naturiol gwarchodedig mae cyfyngedig yw'r capasiti i ehangu'r dref tuag allan, ac ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl eisiau i hynny ddigwydd beth bynnag. Mae mynediad at natur a mannau gwyrdd yn un o'r prif bethau cadarnhaol y soniodd pobl wrthym am fyw yng Nghrughywel. Ond os yw'r dref i ffynnu a pheidio â dod yn bentref ymddeol, yn gyrchfan twristiaeth o dan oruchafiaeth ail gartrefi a llety tymor byr neu'n dref noswylio lle mae pobl yn byw ond ddim yn gweithio, yna mae angen rhywfaint o ddatblygiad tai (a datblygiad masnachol).

Mae'r cynllun hwn yn nodi rhai cyfleoedd ar gyfer y twf hwnnw y credwn y bydd yn gwella bywyd ac economi'r dref. Rydym yn awyddus i unrhyw ddatblygiad mawr gael ei ddylunio er budd y dref gyfan a chreu cymuned gyfannol ac iddi adnoddau gwell.

## Yr Amgylchedd a Bwyd

Roedd llawer o bobl yn mynegi pryder ynghylch cyflwr Afon Wysg - nodwedd ddaearyddol allweddol o'r dref ynghyd â mynydd Crughywel. Mae angen i ni weithio gydag Awdurdod y Parc ac asiantaethau cenedlaethol eraill i adfer ansawdd ei dŵr ac adfywio ei phoblogaeth bysgod. Rhaid i bob penderfyniad ynghylch datblygu ystyried y flaenoriaeth hon.

Roedd llifogydd trychinebus 2020 a 2021 yn rhybudd o effaith newid hinsawdd ar y dref. Er bod yr afon yn fygythiad oddi isod, mae dŵr ffo o'r bryniau yn fygythiad yr un mor gryf oddi uchod. Mae angen i ni weithio gyda'r gymuned ffermio a'n cynghorau cymuned cyfagos, yn ogystal â Cyngor Sir Powys, i "arafu'r llif" o ddŵr o'r bryniau. Mae cyfleoedd i wneud hyn gan ddefnyddio rhwystrau naturiol a draenio naturiol. Ond unwaith eto, mae angen i ni sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn cael effaith niwtral neu lai ar faint o ddŵr ffo sy'n cyrraedd y dref.

Rydym yn awyddus i ddiogelu a gwella mannau gwyrdd o fewn ac o amgylch y dref. Byddwn yn cefnogi mentrau i alluogi defnyddio mwy o dir ar gyfer cynhyrchu bwyd lleol a byddwn yn ceisio annog unigolion a theuluoedd i gael mynediad at erddi cymunedol a mentrau tebyg. Hoffem weld adfywiad yn y farchnad fwyd leol yn y dref, a mentrau cymunedol i rannu cynnyrch dros ben gyda'r rhai sydd ei angen.

Mae arnom eisiau gweld mwy o goed yn cael eu plannu a thir sy'n eiddo i'r gymuned yn cael ei reoli mewn ffyrdd sy'n annog bioamrywiaeth yn ogystal â gwella'r profiad hamdden i drigolion ac ymwelwyr.

## Cludiant – Ceir, Bysiau, Beiciau a Cherddwyr

Mae Crughywel mewn lleoliad daearyddol da, o fewn cyrraedd canolfannau trefol sylweddol Abertawe, Caerdydd, Bryste, Henffordd a Birmingham. Ond dywedwyd wrthym nad oedd cysylltiadau lleol cystal i bobl a oedd yn gorfod teithio ar gyfer gwaith ac addysg. Felly, mae'r dref wedi dod yn ddibynnol iawn ar geir, a dangoswyd hyn yn fwyaf eglur gan nifer y cwynion a gawsom am barcio, yn enwedig o'r strydoedd hynny sy'n dioddef o barcio gormodol ar y stryd.

# Rhagair

Rydym yn canfod tri math o angen parcio: arhosiad byr i bobl sy'n siopa o'r cymunedau cyfagos a phreswylwyr sydd â symudedd cyfyngedig yn ymweld â'n siopau'r Stryd Fawr; parcio i gymudwyr i'r nifer fawr o bobl sy'n teithio i'r gwaith yn y dref; a pharcio arosiadau hir i'r ymwelwyr sy'n dod i fwynhau'r cyfleoedd cerdded a beicio yn y cefn gwlad o amgylch. Rydym yn ceisio canfod safleoedd sy'n diwallu'r gwahanol anghenion hyn, ac rydym yn trafod rhai o'r rhai posibl yn y cynllun.

Ond rydym hefyd yn awyddus y dref yn mynd yn llai dibynnol ar y car. Mae bod wedi ei lleoli ar yr A40 yn helpu Crughywel mewn sawl ffordd i ffynnu, ond mae hefyd yn golygu y gall y dref deimlo ei bod o dan oruchafiaeth ceir a cherbydau nwyddau trwm. Mae hyn yn anghymelliant i deithiau byr ar droed ac ar feic. Credwn fod dyfodiad y beic trydan wedi gwneud beicio, gan gynnwys beicio cymudwyr, yn bosibilrwydd ar gyfer demograffeg cwbl newydd.

Mae'r Cynllun yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer cysylltu Crughywel â rhwydwaith beicio strategol ar hyd dyffryn Wysg, gan ddechrau gyda gwell cysylltiadau â Llangatwg a "ffordd osgoi i feiciau" er mwyn osgoi rhannau mwyaf cul a pheryglus yr A40, a fydd wedyn yn ein cysylltu â llwybrau diogel i Glangrwyne, Gilwern a'r Fenni, ac ymhen amser efallai â Thretŵr a Chwmdu.

Mae twf y dref i'r Gorllewin yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf yn golygu bod cysylltiadau â'r Stryd Fawr yn wael i lawer o drigolion. Rydym yn awyddus i ddatblygu llwybrau cerdded hygyrch gwell ac arwyddion cliriach sy'n cysylltu'r dref, a sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn cynnwys llwybrau cerdded diogel a hygyrch i'r ysgolion a'r Stryd Fawr. Mae arnom eisiau i'r dref fod yn lle cyfeillgar i bobl anabl gyda'r mannau cyhoeddus yn hygyrch i bawb.

Hoffem hefyd annog datblygu mwy o opsiynau trafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys gwasanaeth bysiau cymunedol posibl sy'n cysylltu'r cymunedau cyfagos gyda'i gilydd a helpu i roi mynediad i waith, siopa a gweithgareddau hamdden ar gyfer pob oedran ac yn cynnwys cartrefi nad oes car ar gael yn rhwydd iddynt. Rydym yn cefnogi menter Cyngor Cymuned Llangatwg ar hyn.

### Mannau Dinesig

I rai pobl a siaradodd gyda ni roedd goruchafiaeth y car ar ei waethaf ar hyd yr A40 ac yn enwedig ar y gyffordd â'r Stryd Fawr - hen sgwâr y dref. Rydym wedi cyflwyno cyfres o fesurau gwella ar hyd coridor yr A40 a fydd yn helpu i wneud gyrwyr yn ymwybodol eu bod mewn tref yn hytrach na pharhau ar hyd cefnffordd.

Yn y Stryd Fawr ei hun, rydym yn cynnig cyfres o fesurau i'w gwneud yn fwy cyfeillgar i gerddwyr ac i roi gwell mynediad i'r rhai â phroblemau symudedd, gan gadw'r parcio cyflym y dywedwyd wrthym a oedd yn werthfawr iawn gan y manwerthwyr a'u cwsmeriaid. Bwriad cynllun y Stryd Fawr hefyd yw cysylltu gwahanol fannau cyhoeddus y dref yn gliriach, gan gynnwys cysylltiad uniongyrchol rhwng y Stryd Fawr ac ardal hamdden Tir y Castell. Gwnaethom gynnal Marchnad Nadolig lwyddiannus iawn yn y Stryd Fawr yn 2023. Dywedodd pobl wrthym yr hoffent weld mwy o ddigwyddiadau o'r fath, ac rydym yn awyddus hefyd i archwilio'r syniad o adfer marchnad fwyd reolaidd.

Mae mannau dinesig lle mae'r dref yn dod at ei gilydd yn anffurfiol yn fannau dychmygol yn ogystal â mannau ffisegol. Mae llawer o elusennau a chlybiau ffyniannus yn y dref, yn cael eu cadw i fynd gan fyddin o wirfoddolwyr. Ond nid ydynt bob amser wedi eu cydgysylltu'n dda â'i gilydd. Hoffem eu helpu i ddod at ei gilydd yn fwy.

### Masnach a Diwydiant

Mae Stryd Fawr lewyrchus Crughywel yn un o drysorau'r dref. Mae llawer o drefi marchnad bellach a fyddai'n genfigennus o'r amrywiaeth o siopau annibynnol sydd gennym o hyd, gan gynnwys y rhai sy'n diwallu ein hanghenion beunyddiol. Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i gynnal cymeriad ac amrywiaeth ein Stryd Fawr a byddwn yn eirioli dros ddatblygiadau manwerthu sy'n canolbwyntio ar ganol y dref, gan gynnwys Stryd Beaufort a'r Cwrt yn Fferm Upper House. Rydym yn awgrymu rhagdybiaeth o blaid unedau manwerthu bach i ganolig eu maint mewn polisi cynllunio er mwyn darparu lle i'r masnachwyr

# Rhagair

annibynnol lleol presennol a rhai newydd i ffynnu. Mae arnom eisiau sicrhau bod swyddi o ansawdd uchel ar gael i bobl sy'n byw yn y dref a'r cyffiniau. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddenu datblygiadau o'r fath yn Elvicta a safleoedd priodol eraill ar hyd yr A40. Mae angen i'r rhain hefyd fod â chysylltiadau da â'r dref gyda llwybrau diogel i gerddwyr a beicwyr a darpariaeth barcio ddigonol. Rydym yn gobeithio y gall tref sydd â chysylltiadau da fel Crughywel hefyd ddenu gweithio o swyddfeydd, yn enwedig mewn oes newydd o weithio o bell.

### Addysg

Ynghyd ag ysgol gynradd ardderchog, mae'r dref yn ffodus iawn i gael ysgol uwchradd sy'n perfformio'n dda, gan gynnwys chweched dosbarth llwyddiannus. Mae'r ysgol yn ased enfawr i'r dref mewn sawl ffordd wahanol. Mae angen i ni barhau i ddatblygiadau cysylltiadau a chanfod ffyrdd o wneud i'r myfyrwyr deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn rhan o'n cymuned. Un ffordd o wneud hyn yw canolbwyntio ar lwybrau cerdded a beicio diogel, un arall yw rhoi eu cyfran o'r lle dinesig i bobl ifanc. Mae'r Ysgol Uwchradd hefyd yn elfen bwysig wrth gynnal cysylltiadau Crughywel â'i chymunedau cyfagos

### Diwylliant

Yn ystod y ddegawd diwethaf, mae'r bwrlwm diwylliannol yng Nghrughywel wedi cael ei fywiogi gan ddigwyddiadau blynyddol fel Gwyliau Comedi y Dyn Gwyrdd a'r Mynydd Du. Mae'r Dyn Gwyrdd, yr ŵyl gelfyddydol fwyaf yng Nghymru, yn rhoi hwb sylweddol i dwristiaetha yr ardal bob mis Awst. Mawr obeithiwn y bydd yr ŵyl, a gynhelir ym Mharc Glan Wysg, yn parhau i ffynnu yno ymhell i'r dyfodol.

Er un mor bwysig yw'r digwyddiadau blynyddol mawr hyn, y ffordd fwyaf ystyrlon y mae pobl yn ymwneud â diwylliant yng Nghrughywel yw yn eu bywydau bob dydd. Boed hyn yn golygu mynd i ddosbarth celf, gwylio drama yn Neuadd Clarence, gwrando ar sgwrs hanes gan awdur lleol, mwynhau digwyddiad llenyddol mewn lleoliad lleol neu ymweld ag un o'n orielau neu gymryd rhan yn y penwythnos Stiwdios Agored, mae diwylliant yn rhan gyfoethog a hanfodol o fywyd yng Nghrughywel.

Mae'n  hanfodol felly ein bod yn cefnogi ac yn annog sefydliadau celfyddydol, gwirfoddolwyr lleol, artistiaid ac awduron, i barhau i gynhyrchu profiadau a gwaith i'r gymuned, yn ogystal â darparu lleoedd ac amgylcheddau addas sy'n helpu i wneud y gweithgareddau hyn yn bosibl.

### Chwaraeon a Hamdden

Mae Crughywel yn ffodus iawn o gael nifer o glybiau a sefydliadau chwaraeon llwyddiannus yn ogystal â chyfleusterau hamdden a mannau hamdden. Mae'n bwysig bod gan y gymuned fynediad hygyrch a chyfleus i'r mannau hyn a'u bod yn parhau i gael eu cynnal a'u rhedeg i'r safonau uchaf.
Rydym hefyd yn cydnabod sut mae 'llesiant' yn sector sy'n tyfu a ddaw yn bwysicach i'r economi leol a bywydau pobl yn ystod y degawd nesaf, ac rydym yn cydnabod y rôl sydd gan y maes hwn mewn dylanwadu'n gadarnhaol ar iechyd meddwl pobl, yn ogystal â'u hiechyd corfforol.

Mae Chwaraeon a Hamdden yn dod â phobl at ei gilydd ac yn chwarae rhan hanfodol mewn cydlyniant cymunedol a llesiant personol. O'r herwydd, ein dyhead yw bod ein hardaloedd chwaraeon a hamdden yn parhau i fod yn llwyddiannus ac yn cael eu cefnogi'n llawn, a byddwn yn annog unrhyw un o'r clybiau a'r sefydliadau lleol hyn i wneud cais i gynllun grantiau'r Cyngor Tref am gyllid, yn ogystal â chynlluniau a mentrau mwy.





**Paul Evans CBE**
**Maer Cyngor Tref Crughywel**

# Cyflwyniad

# Diben

Mae Cyngor Tref Crughywel wedi ffurfio partneriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i lunio gweledigaeth ar gyfer dyfodol ein tref am y 15 mlynedd nesaf. Dyma Gynllun Lle y dref.

Mae Cynlluniau Lle yn ein helpu ni i ddeall y problemau mae cymunedau'n eu hwynebu ac maent yn cynnig syniadau ac atebion inni eu datrys, yn ogystal â deall y cyfleoedd sydd gennym a sut i fanteisio i'r eithaf arnynt. Mae'r Cyngor Tref wedi mynd ati i ddatblygu 'Cynllun Lle' mewn modd cynhwysol, o'r gwaelod i fyny er mwyn dylanwadu ar ffyniant a llesiant y dref yn y dyfodol. Dechreuasom y broses yn hydref 2023 gyda chyfres o ymgyngoriadau cyhoeddus ac rydym wedi cyflawni ymgyngoriadau pellach wrth i'n cynllun ddatblygu.

Rydym yn gweld y Cynllun hwn fel un seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrth iddynt baratoi eu Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd wedyn yn ffurfio rhan o'r sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio yn ein tref yn y dyfodol.



# Nodau ac Amcanion

**Y nod cyffredinol yw**

*"Sicrhau cefnogaeth y gymuned leol, fel eu bod yn cymryd perchnogaeth o'r allbynnau ac yn cytuno ar gyfrifoldeb ar y cyd dros gyflawni yn y dyfodol".*

**Amcanion:**
- Annog y gymuned i chwarae mwy o ran mewn cynllunio a llesiant lleol.
- Dylanwadu ar gynlluniau cyflawni cyrff sector cyhoeddus.
- Sicrhau gwelliant gweladwy o ganlyniad i'r cynllun hwn fel dechrau proses barhaus.

**I'w gyflawni drwy'r camau canlynol:**
- Ymgynghori â phreswylwyr a sefydliadau lleol allweddol, gan gynnwys cynghorau cymuned cyfagos, a thrwy'r Tîm Cynllunio i ganfod anghenion, materion a blaenoriaethau lleol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n berthnasol yn lleol.
- Cyd-drafod â chyrff y sector cyhoeddus a'u cynnwys wrth gyflawni'r Cynllun

## Beth yw Cynllun Lle?

Dogfennau anstatudol yw Cynlluniau Lle. Gellir eu paratoi ar anogaeth y gymuned leol ac maent yn arf pwerus i hyrwyddo camau cydweithredol i wella llesiant a chreu lleoedd. Dylai Cynlluniau Lle gefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau Cynlluniau Datblygu Lleol  a chânt eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol gan yr awdurdod cynllunio lleol (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

Er mwyn bod yn llwyddiannus, bydd angen i Gynlluniau Lle gysylltu'n ofalus â chylch paratoi ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Felly, bydd amseru Cynllun Lle yn ystyriaeth bwysig i awdurdod cynllunio lleol. O'r herwydd disgwylir i'r rhan fwyaf o Gynlluniau Lle gael eu paratoi gyda'r nod o ddod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Fel CCA, ni ellir mabwysiadu Cynllun Lle hyd nes y bydd CDLl wedi cael ei fabwysiadu. Efallai mai'r demtasiwn wedyn fydd cael  CDLl ar waith cyn ei ddilyn â chyfres o Gynlluniau Lle. Mewn achosion lle mae CDLl wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar a all roi bachyn polisi cyffredinol neu benodol i Gynllun Lle, efallai mai dyma'r amser delfrydol i ddechrau gweithio ar Gynlluniau Lle.

Pwrpas proses cynllun lle yw:
- Casglu tystiolaeth am eich ardal i ddeall pa bryderon y mae'r gymuned yn eu hwynebu.
- Siarad â'r gymuned ehangach a rhanddeiliaid am sut y bydd yr ardal yn datblygu, a beth sydd angen ei wneud er lles y gymuned yn y dyfodol.
- Cytuno sut rydych chi eisiau i wahanol agweddau ar eich lle fod yn y dyfodol.
- Cytuno ar gynllun i weithio tuag at y dyfodol hwn, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, polisïau ar gyfer gwneud penderfyniadau am gynllunio a chynllun gweithredu i bennu sut yr ymdrinir â phryderon a nodwyd.
- Sicrhau bod y cynllun terfynol hwnnw wedi'i gytuno gan y gymuned, rhanddeiliaid allweddol a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) i'w ddefnyddio fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

Y manteision i'r gymuned o gael cynllun o'r fath ar waith yw:
- Rhoi blaenoriaeth i gamau allweddol i wella bywiogrwydd yr ardal a llesiant y bobl sy'n byw ynddi.
- Cael dealltwriaeth dda o anghenion a dymuniadau cymunedau, gan gynnwys y graddau o gefnogaeth i wahanol faterion a chamau gweithredu.
- Cyfrannu mwy at benderfyniadau cynllunio lleol, gan gynnwys dylanwadu ar fersiynau o'r Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gymuned.
- Gwella'r berthynas waith rhwng y gymuned, yr Awdurdod Lleol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol eraill.
- Gwella cryfder ceisiadau am gyllid yn y dyfodol ar gyfer prosiectau cymunedol o fewn y Cynllun Lle drwy ddarparu tystiolaeth o angen a chefnogaeth ymhlith y gymuned ehangach.
- Gwella llesiant cymunedol

# Lle mae Crughywel?

Mae Crughywel wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mhen deheuol sir Powys. Saif y dref o fewn dyffryn hardd Afon Wysg hardd o fewn cysgod bryn Crug Hywel (a adnabyddir fel Table Mountain yn Saesneg) i'r gogledd.

Mae'r dref wedi ei lleoli o fewn tuag awr i ddinasoedd mwyaf de Cymru, Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Mae'r dref hefyd yn agos i'r A470 gan roi iddi gysylltiadau da â Chaerdydd, trefi gogleddol y cymoedd a chanolbarth a gogledd Cymru. Hi yw'r ganolfan drefol i'r cymunedau cyfagos sy'n cynnwys Llangatwg, Llangynidr, Cwmdu, Tretwr, Llanbedr, Llangenni a Glangrwyne.

Mae ffordd yr A40 yn rhedeg trwy Grughywel gan roi cysylltiadau strategol allweddol i'r dref â'r ardal ehangach. Mae hon yn gyswllt allweddol rhwng gorllewin Cymru, Bannau Brycheiniog a thraffordd yr M5 (Caerloyw a Cheltenham). Yn fwy lleol mae'r dref yn gorwedd rhwng Aberhonddu a'r Fenni, sydd law yn llaw â chanol tref Crughywel yn helpu diwallu anghenion trigolion lleol o ddydd i ddydd.




Cynllun o'r lleoliad ehangach



# Cyd-destun a Lleoliad

Mae Crughywel wedi datblygu o amgylch ei graidd hanesyddol, sef Castell Crughywel, Eglwys Sant Edmwnd a Chanol y Dref. Mae'r rhain yn diffinio'r gorffennol hanesyddol ac yn helpu i ffurfio hunaniaeth y dref.


Mae ardaloedd preswyl y dref yn ehangu allan o'r craidd hwn, gyda chartrefi mwy newydd (ac ardaloedd cyflogaeth) tuag at ymylon y dref.

Mae Afon Wysg yn rhedeg i'r de o'r dref, ac mae'r bont garreg o'r ail ganrif ar bymtheg sy'n ei chroesi yn ffurfio porth allweddol i'r dref.

A hithau wedi'i lleoli o fewn Bannau Brycheiniog ac ar ymyl y Mynydd Du mae'r dref yn rhan greiddiol o'r cefn gwlad sy'n ei hamgylchynu gan roi cymeriad gwledig iddi. Mae mynydd Crug Hywel, sy'n edrych dros y dref yn nodwedd eiconig o'r tirwedd.

Mae'r A40 yn darparu cysylltiadau strategol da rhwng y dref a'r ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, mae hefyd yn dod â llawer o draffig trwy draffig sy'n groes i gymeriad "tawel" y dref fel arall.

Mae'r gymuned yn elwa hefyd ar gyfleusterau y tu allan i ffin y dref gan gynnwys ei chlwb pêl-droed, clwb rygbi yn ogystal â chartrefi yng Nghwrt y Gollen ac yng Nglangrwyne. Mae cymuned Llangatwg hefyd wedi ei lleoli ar ochr orllewinol Afon Wysg gyda pherthynas gref o ran gwasanaethau lleol.




Map cyd-destun Crughywel

# Proses y Cynllun

Dechreuodd proses Cynllun Lle Crughywel ym mis Mehefin 2023 gyda phenodiad Chris Jones Regeneration a Roberts Limbrick, ymgynghorwyr sy'n canolbwyntio ar leoedd. Mae prif gamau proses y Cynllun Lle wedi'u hamlinellu isod:

**Cam 1**

**Sefydlu proses y Cynllun Lle**
Cerdded o gwmpas y dref
Adolygu astudiaethau blaenorol, ystadegau a data
Adolygu polisi
Dadansoddi'r Lle
Hyrwyddo'r Cynllun Lle
**(Mehefin i Awst 2023)**



**Cam 2**

**Deall anghenion Crughywel a'i flaenoriaethau yn y dyfodol**
Cyd-drafod â Rhanddeiliaid Lleol a Strategol
Cam 1 Ymgynghori â'r Gymuned
**(Medi i Hydref 2023)**




**Cam 3**

**Datblygu syniadau i ymateb i'r heriau**
Adrodd yn ôl ar themâu sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad
**(Rhagfyr 2023)**



**Cam 4**

**Cyflwyno'r Cynllun Lle Drafft i'r Gymuned**
Drafftio cynigion
Cam 2 Ymgynghori â'r Gymuned
Blaenoriaethu camau gweithredu
Cwblhau'r Cynllun Lle
**(Ionawr – Mawrth 2024)**



# Pam fod ar Grughywel angen Cynllun Lle?

## Cefndir

Crickhowell Town Council produced a Community Plan with the help of the Fe wnaeth Cyngor Tref Crughywel ffurfio Cynllun Cymunedol gyda chymorth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2017. Mae'r Cynllun hwn bellach wedi dyddio, ac er iddo gael ei fabwysiadu, effaith gyfyngedig a gafodd y cynllun ei hun wrth fynd i'r afael â'r heriau allweddol mae'r dref yn eu hwynebu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau, mae Cyngor Tref Crughywel wedi canfod yr angen am 'Gynllun Lle' fel dull o'r gwaelod i fyny o ddylanwadu ar gyfeiriad y dref yn y dyfodol. Mae o'r farn fod y Cynllun yn seiliedig ar anghenion a dymuniadau'r gymuned leol ac y bydd yn helpu i lunio a dylanwadu ar benderfyniadau polisi yn y dyfodol. Y bwriad yw y caiff y Cynllun Lle ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol i gynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrth wneud penderfyniadau. Mae asiantaethau eraill fel Cyngor Sir Powys , Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac eraill, yn chwarae rhan ganolog yn y broses ac yn defnyddio'r ddogfen i lywio eu penderfyniadau eu hunain.

Mae'r Cyngor Tref yn dymuno sicrhau bod y broses o ddatblygu cynllun wedi'i llunio fel ei bod yn cynnwys holl anghenion y gymuned ac yn gosod esiampl o ran dulliau o'r gwaelod i fyny o ddatblygu polisi.

Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Rheoli mwyaf newydd ar gyfer Bannau Brycheiniog, Y Bannau: Y Dyfodol, mae'r pecyn cymorth presennol yn ogystal â bod wedi dyddio yn gofyn am angen ailfeddwl ar y ffordd y mae'r sefydliad yn dyrannu adnoddau ar gyfer Cynllunio Lle. Nod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw datblygu tîm arbenigol o fewn y sefydliad sy'n gallu gweithio gyda chymunedau i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Mae proses Cynllun Lle Crughywel yn rhoi cyfle i sicrhau bod gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol y sgiliau a'r adnoddau i gefnogi cymunedau. Ei nod yn y pen draw yw sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn gallu diwallu anghenion pawb o'n trigolion, o fewn ein terfynau amgylcheddol.



# Dadansoddiad o’r Lle

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

## Cyd-destun Polisi

Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer lle fel Crughywel yn bwysig gan ei fod yn dangos y berthynas rhwng agendâu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a rhoi cyfeiriad a chysondeb strategol. Mae hefyd yn dangos y cyfleoedd strategol a'r cyfyngiadau i le a'i ddatblygiad.

## Cenedlaethol

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy.

Nid yw hyn yn gysyniad newydd i'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod yn rhan greiddiol o bolisi cynllunio ers i Bolisi Cynllunio Cymru gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi cael ei ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae'n gofyn am welliant yn y ffordd y gweithredir pob un o bedair agwedd llesiant, sef yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod llesiant a'u bwriad yw llywio gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Er mwyn dangos bod ystyriaeth addas wedi ei rhoi i'r nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r 'pum ffordd o weithio' yn y Ddeddf Llesiant. Mae'r rhain yn gofyn am ystyried: cynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor.

### *Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 – Chwefror 2024*

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau eglurhad polisi, sydd, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol eraill a dyletswyddau canlyniadol fel y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.


Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio yng Nghymru neu'n gweithredu ynddi ymdrin â'r cysyniad o greu lleoedd mewn penderfyniadau cynllunio a rheoli datblygu er mwyn sicrhau creu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau. Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system gynllunio defnydd tir yng Nghymru; maent yn ganlyniad y system gynllunio yn hytrach na'r broses o'u cyflawni. Dylai pob penderfyniad datblygu, boed drwy gynlluniau datblygu, dewisiadau polisi neu benderfyniadau rheoli datblygu unigol geisio cyfrannu tuag at wneud lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant. Dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithredol, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Gall lleoedd unigol fod ar sawl ffurf, a bydd dehongli'r hyn sy'n gwneud lle da yn amrywio. Bydd gan bob lle ei nodweddion, ei hanes a'i hunaniaeth unigryw ei hun, yn seiliedig ar sut mae, a sut y bydd, pobl yn rhyngweithio â'r tirwedd a'r treflun.

### Beth yw Creu Lleoedd?

Mae  Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio "creu lleoedd" fel dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n manteisio ar botensial ardal i greu datblygiadau o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf. Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng dafle datblygu a'i amgylchedd ehangach. Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fanteision sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad corfforol ac sy'n ymgorffori gwytnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.




### Cynlluniau Lle

Dywed Polisi Cynllunio Cymru fod Cynlluniau Lle yn ddogfennau anstatudol. Gallant gael eu paratoi a'u hysgogi gan y gymuned leol ac maent yn arf pwerus i hyrwyddo cydweithio i wella llesiant a chreu lleoedd. Dylai Cynlluniau Lle gefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau CDLl a chânt eu mabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol.

### *Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021*

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol system drafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd sy'n gwasanaethu Cymru. Mae'n rhoi cyd-destun i nod Llywodraeth Cymru o leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir preifat, ac mae'n cefnogi newid dulliau teithio at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Adlewyrchir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, sy'n rhoi creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio. Cefnogir y newid dulliau hwn gan yr hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cafodd Strategaeth Drafnidiaeth bresennol Cymru, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, ei gyhoeddi yn 2008. Ers hynny cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n gynyddol ddylanwadol yn y ffordd rydym yn integreiddio teithio llesol â datblygiad newydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgareddau bob dydd. Mae cynlluniau Metro hefyd yn cael eu datblygu yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd, sy'n cael eu hysgogi gan fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gweithredu.

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

### *Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013*

Mae Cerdded a Beicio wedi ennill cefnogaeth ers i Lywodraeth Cymru basio Deddf Teithio Llesol (Cymru), a dderbyniodd gydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr awdurdodau lleol i wella'n barhaus y cyfleusterau a llwybrau, yn rhai newydd a rhai sy'n bod eisoes, i gerddwyr a beicwyr a pharatoi mapiau yn nodi'r llwybrau presennol, a rhai posibl yn y dyfodol, y gallant eu defnyddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y camau cynllunio a dylunio. Dylid dylunio neu wella'r rhwydwaith teithio llesol i gyrraedd set o safonau'r arferion gorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau:

- Canllawiau Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Canllawiau Statudol ar gyfer Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;
- Y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol.

### *Cymru's Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol*

Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, cyflawni datgarboneiddio a gwrthsefyll newid hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.



# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

### *Datganiadau Ardal – Cyfoeth Naturiol Cymru*

Mae Datganiadau Ardal a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi strategaeth ar gyfer rheoli Adnoddau Naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Fel yr awgryma'r enw, mae'r datganiadau yn seiliedig ar ardaloedd gofodol.

Mae saith yn cwmpasu Cymru, gyda phedwar ohonynt yn ymestyn i ardal y Parc Cenedlaethol:
- De-ddwyrain Cymru
- Canol De Cymru
- De-orllewin Cymru
- Canolbarth Cymru

### *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2020) (SoNaRR)*

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o gyflwr Adnoddau Naturiol yng Nghymru (SoNaRR). Mae'r adroddiad hwn yn ddogfen allweddol wrth baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at yr angen i sectorau cyhoeddus drosoli newid i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd gan ddefnyddio newid trawsnewidiol ar draws ecosystemau, a systemau economaidd a chymdeithasol.





# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

***Deddf yr Amgylchedd 2016 Rhan 1 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Rhan 2 Newid yn yr Hinsawdd***

Mae adnoddau naturiol yn hanfodol ar gyfer yr aer rydyn ni'n ei anadlu, y dŵr rydyn ni'n ei yfed a'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Maent yn gwella ansawdd y lleoedd lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw ac yn creu'r tirweddau a'r bioamrywiaeth sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn arbennig. Mae adnoddau naturiol sy'n iach ac yn ffynnu hefyd yn iachach i bobl, eu cymunedau ac i'r economi, ond mae'r galw ar ein hadnoddau naturiol yn cynyddu. Os na fyddwn yn gweithredu ar unwaith i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd canlyniadau difrifol a fydd effeithio ar bob un ohonom. Mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau fel ein bod yn parhau i elwa o'n hadnoddau naturiol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ein helpu i ymateb i'r her hon drwy gyflwyno rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol fel dull newydd sy'n sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol ac yn effeithio arnynt yn arwain at eu dirywiad hirdymor. Rydym wedi dysgu o brofiadau ein partneriaid rhyngwladol ac rydym yn defnyddio'r arferion gorau rhyngwladol drwy weithredu dull ecosystemau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol er mwyn helpu Cymru i arwain y ffordd ar Ddatblygu Cynaliadwy. Ein nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ac ar raddfa sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb amharu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Mae Rhan 1 o'r Ddeddf - Dyletswydd Bioamrywiaeth A6 - yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau cydnerth. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau mewn polisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol:

- Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru 2013
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr: Adolygiad 2013-2018 a Gweithredoedd y Dyfodol (llyw.cymru)
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2015
- Cyfoeth Naturiol Cymru 2017
- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

***Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19***

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu i gymryd camau gweithredu yn ystod y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Roedd y papur yn tynnu sylw at y polisïau cynllunio presennol allweddol a'r adnoddau y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, gan gydnabod yr angen o hyd i gynllunwyr weithredu o fewn cyd-destun ehangach blaenoriaethau a chamau gweithredu ar bob graddfa. Nid yw cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru tuag at leoedd gwell a chreu lleoedd wedi newid. Yn wir, mae argyfwng y pandemig wedi tanlinellu'r angen am leoedd o ansawdd da i bobl fyw, gweithio ac ymlacio ynddynt. Mae hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd ansawdd ein hamgylcheddau byw a gweithio a chymaint yn bwysicach ydynt wrth inni fynnu cael mwy o hyblygrwydd i gefnogi anghenion gweithio, byw a dysgu newydd.

Mae PCC yn cynnwys datganiadau polisi gan Lywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion a phynciau cynllunio; sy'n dal yn berthnasol a dylai awdurdodau cynllunio lleol a'r sectorau datblygu eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Fodd bynnag, yn y cyfnod yn union ar ôl Covid-19, bydd meysydd polisi penodol y dylai ystyriaethau a chamau gweithredu ganolbwyntio arnynt, er mwyn sbarduno adferiad ym mhob un o'r colofnau datblygu cynaliadwy.

Mae'r ystyriaethau hyn yn dod o dan un o dri chategori:

1. Sut y gwnaethom brofi effeithiau uniongyrchol y cyfnod o gyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 a'r newidiadau cadarnhaol parhaol y mae angen inni eu gweld mewn lleoedd ac fel rhan o ddatblygiadau newydd.
2. Y gwersi a ddysgwyd gennym dros y cyfnod hwn a sut y gallwn helpu i wneud lleoedd yn fwy cydnerth a gwella eu gallu i ymaddasu i bandemigau yn y dyfodol, pe baent yn digwydd eto.
3. Helpu'r adferiad ar ôl i'r pandemig fynd heibio ac ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio er mwyn sicrhau ei fod o fudd i bob rhan o gymdeithas ac yn ein helpu i ddatgarboneiddio, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwella iechyd a lles cyffredinol.

Mae PCC yn dangos bod meysydd polisi yn gweithio'n fwy effeithiol pan gânt eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn cael y budd mwyaf posibl. Felly, rydym wedi penderfynu nodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd er mwyn sicrhau bod camau gweithredu mor effeithiol â phosibl. Yr wyth mater yw:

- Cadw'n lleol: creu cymdogaethau
- Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir
- Adfywio canol ein trefi
- Lleoedd digidol - rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
- Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol
- Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

## Rhanbarthol

***Cryfach, Tecach, Gwyrddach 2023 – Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Powys***

Mae Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol Cyngor Sir Powys yn nodi gweledigaeth y cyngor ar gyfer dyfodol Powys ac mae'n cynnwys yr amcanion lles y bydd yn canolbwyntio arnynt i helpu i wireddu eu gweledigaeth.

Mae'r cynllun yn weithredol o fis Ebrill 2023 ymlaen yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Bwriedir cynnal amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau er mwyn cyflawni eu hamcanion.

Eu huchelgais yw y bydd Cyngor Sir Powys, erbyn 2027, yn lle:

- Cryfach - bydd yn dod yn sir sy'n llwyddo gyda'i gilydd, gyda chymunedau a phobl sydd wedi eu cysylltu'n dda yn gymdeithasol ac sy'n bersonol ac economaidd wydn.
- Tecach - bydd yn Gyngor agored wedi'i redeg yn dda sy'n gwrando ar leisiau pobl sy'n cyfrannu at ein gwaith a'n blaenoriaethau, gyda mynediad tecach a mwy cyfartal at wasanaethau a chyfleoedd. Bydd yn gweithio i drechu tlodi ac anghydraddoldeb i gefnogi llesiant pobl Powys.
- Gwyrddach – mae arnol eisiau sicrhau dyfodol gwyrddach i Bowys gyda'u llesiant wedi'i gysylltu â llesiant y byd naturiol a'u hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur wrth galon popeth a wnânt.

Er mwyn cyflawni eu huchelgais, mae wedi gosod tri amcan iddynt eu hunain sy'n nodau craidd y Cynllun Corfforaethol a Chydraddoldeb Strategol hwn:

1. Bydd yn gwella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau a sut i'w derbyn fel y gall pobl wneud dewisiadau gwybodus.
2. Bydd yn cefnogi cyflogaeth dda a chynaliadwy a darparu cyfleoedd hyfforddiant gan weithio tuag at fod yn gyflogwr cyflog byw gwirioneddol achrededig.
3. Bydd yn gweithio i ddelio â thlodi ac anghydraddoldeb i gefnogi llesiant pobl Powys.

***Powys Gynaliadwy***

Mae darparu gwasanaethau llywodraeth leol gwerthfawr wrth wraidd popeth yr hyn mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud. Gydag amseroedd cyfnewidiol a'r amodau economaidd, mae angen iddo fod yn rhagweithiol, yn arloesol ac yn flaengar er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod yr heriau ac mae'n awyddus i weithio mewn partneriaeth i archwilio'r cyfleoedd i wneud y newidiadau sydd eu hangen i adeiladu dyfodol cryfach, tecach a gwyrddach i Bowys. Mae hyn yn golygu adolygu pa wasanaethau mae'n eu darparu a sut y cânt eu darparu i ddiwallu'r anghenion presennol a'r canlyniadau gorau, gan sicrhau hefyd bod ganddynt atebion arloesol i ddarparu'r gwasanaethau gorau sydd wedi'u haddasu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r model cyflawni newydd yn ymwneud â chydweithio a mynd ati o'r gwaelod i fyny, a phartneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

Mae a wnelo Powys Gynaliadwy â chydweithio er mwyn:

- Cynllunio dyfodol i'n hawdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau cryfach, tecach a gwyrddach gan aros o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Adeiladu gwytnwch fel y gall datrysiadau a arweinir gan y gymuned helpu i gyflawni'r hyn sydd ei angen yn lleol.



# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle


***Cynllun Llesiant Powys 2023***

Gweledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw Powys Deg, Gynaliadwy ac Iach.  Y tri amcan llesiant a'r anghenion  a fydd yn llunio'r gwaith i gyflawni'r weledigaeth yw:


1. Bydd pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach a diogel
    - Bydd pobl ym Mhowys yn agored i risg hinsawdd gynyddol ac mae angen ei gydnabod a'i liniaru er mwyn eu cadw'n ddiogel.
2. Mae Powys yn sir o leoedd a chymunedau cynaliadwy
    - Mae pobl ym Mhowys yn defnyddio llawer mwy na'u cyfran deg o adnoddau byd-eang (gan gynnwys carbon), ac mae'r byd naturiol lleol yr ydym ni i gyd yn dibynnu arno yn dirywio'n gyflym
    - Mae cymunedau Powys yn fwy uniongyrchol ddibynnol ar yr amgylchedd naturiol ac yn cael eu heffeithio ganddo na rhanbarthau trefol eraill Cymru
3. Gwasanaeth Cyhoeddus cynyddol effeithiol i bobl Powys
    - Mae pobl ym Mhowys yn gofyn am wasanaethau cyhoeddus a phenderfyniadau cynllunio sy'n cael eu llywio gan yr hinsawdd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn dibynnu ar y rhain.

Nod y cynllun gweithredu yw:

- Cymryd ein cyfran deg o'r camau i ddatgarboneiddio, yn unol â Chytundeb Paris 2025
- Datblygu dal a storio carbon - cynyddu'r gofod i natur amsugno carbon
- Addasu i effeithiau'r hinsawdd - gwella gwydnwch pobl a natur i ddygymod ag effeithiau hinsawdd na ellir eu hosgoi



## Polisi, Astudiaethau, Data a Lle




***Y Bannau: Y Dyfodol (Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) 2023***

Y Bannau: y Dyfodol yw'r Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Wrth ei gyhoeddi, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cyflawni ei rwymedigaeth o dan adran 66(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i baratoi a pharhau i adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer yr ardal.

Mae'r Cynllun yn gweithredu fel Cenhadaeth wrth geisio mynegi'r pwyslais allweddol sydd ei angen ar ei holl ymdrechion er mwyn gwireddu'r newidiadau hyn. Mae'r cenadaethau'n canolbwyntio ar yr heriau mawr i'r Parc. Mae'n edrych ar ei hinsawdd, ei amgylcheddau dwr, ei amgylcheddau naturiol, ei bobl a'i leoedd (sef y pwynt lle daw'r cyfan ynghyd). Caiff pob un o'r cenadaethau hyn eu cynnal gan brif amcanion, sy'n mynegi ymhellach ei uchelgais fel cyfres o ddatganiadau o ganlyniad.

Mae'r cenadaethau hyn, a'r amcanion sy'n eu cefnogi wedi cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid allweddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd angen gwaith pellach i ddatblygu'r cynlluniau gweithredu angenrheidiol i'w gwireddu.

- **Hinsawdd** – Cyrraedd sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog erbyn 2035.
- **Dŵr** - Adnoddau ac amgylcheddau dwr glân, diogel, gwydn a digonol erbyn 2030.
- **Natur** – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn natur-bositif erbyn 2030.
- **Pobl** – Byw, gweithio ac ymweld yn ddiogel, yn deg ac yn gynaliadwy.
- **Lle** – Lleoedd hardd, ffyniannus a chynaliadwy, sy'n cael eu dathlu am eu treftadaeth naturiol a diwylliannol, yn awr ac am byth.

O dan y thema Lle, mae'r Cynllun Rheoli yn galw am gydweithio sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o feysydd gofodol i gydgynhyrchu ymatebion i'r argyfyngau natur, hinsawdd ac economaidd.

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

Y canlyniadau a bennwyd yw:

**Lleoedd gwydn** - Mae'r lleoedd hyn yn gynaliadwy yn ecolegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol i'r dyfodol, ac yn darparu mynediad da at dai, cyflogaeth a gwasanaethau i ddiwallu anghenion y gymuned. Maen nhw'n llai dibynnol ar gadwyni cyflenwi allanol am hanfodion yn sgil y cynnydd yng nghynnyrch ynni adnewyddadwy, cyflenwad bwyd lleol a chyfleoedd ar gyfer perchnogaeth gymunedol.

**Lleoedd llewyrchus** - Mae'r lleoedd hyn wedi cynyddu'u cyfran o'r cyfoeth cymunedol a gynhyrchir yn yr economi leol trwy ddatblygu'r economi sylfaenol, mentrau cymdeithasol a'r economi werdd.

**Lleoedd ysbrydoledig** - Mae'r lleoedd hyn yn adeiladu ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a'n dynodiadau rhyngwladol sy'n dathlu diwylliant, treftadaeth, yr amgylchedd naturiol a'r Gymraeg.

**Lleoedd wedi'u cynllunio'n dda** - Mae pawb yn teimlo cysylltiad â'u lle ac mae hyn o fudd i iechyd a llesiant pobl. Mae ein lleoedd yn darparu amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel sy'n rhoi man diogel i'n preswylwyr ac ymwelwyr gwrdd, byw, gweithio, chwarae a chysylltu â'i gilydd. Gall ein busnesau ffynnu trwy gysylltu â phobl, gwasanaethau a seilwaith.

**Lleoedd arloesol** - Mae'r lleoedd hyn yn meddu ar rwydweithiau cysylltiedig o ddinasyddion sy'n cydweithio'n arloesol â busnesau a sefydliadau allweddol er mwyn cynnig atebion i heriau sy'n seiliedig ar le.

**Lleoedd hanesyddol** - Mae amgylchedd diwylliannol a hanesyddol y lleoedd hyn mewn cyflwr da, yn cael ei werthfawrogi, ei ddathlu a'i ddeall yn well gan drigolion ac ymwelwyr. Mae synergedd rhwng tirwedd y Parc Cenedlaethol a'n parciau, ein gerddi hanesyddol, ein ffermydd hanesyddol, a'n bythynnod gwledig, ac mae hynny'n sail i'n dealltwriaeth a'n rheolaeth o Le.

**Lleoedd canolog** - Mae ein trefi marchnad hanesyddol yn cael eu hadfywio i fod yn ganolfannau bywiog a hyfyw ar gyfer y dyfodol.

**Lleoedd iach** - Mae'r lleoedd hyn yn rhoi'r modd inni gysylltu â'n harddwch naturiol i fod yn well, yn iach ac yn hapus. Rydyn ni'n gwasanaethu ac yn cefnogi ystod o opsiynau "gwyrdd" a chymdeithasol ar gyfer ein cymuned a thu hwnt

**Lleoedd hardd** - Caiff ein harddwch naturiol ei warchod a lle bo angen ei adfer, fel y gall pawb werthfawrogi a charu ein tirwedd fawreddog. Lleoedd sy'n cysylltu â natur - Yn y lleoedd hyn, mae modd cysylltu'n feunyddiol â byd sy'n gyforiog o natur ac sy'n cael ei werthfawrogi.

Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi'r angen am gynlluniau lle cyfannol, gyda chenhadaeth yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu a chyflawni Cynlluniau Lle cyfannol gyda chymunedau'r Parc Cenedlaethol.

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

***Cynllun Datblygu Lleol 2013-2022***

Cafodd y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 17 Rhagfyr 2013 ac ar y dyddiad hwn daeth yn ddogfen polisi cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae’n nodi’r polisïau a’r dyraniadau tir allweddol a fydd yn llunio dyfodol ardal y Parc Cenedlaethol ac arwain datblygiadau hyd at 2022. Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Cymeradwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2007) a Cynllun Lleol Mabwysiedig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (1999).

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio bod yn strategol ei natur ac yn nodedig yn lleol, gan ganolbwyntio ar Strategaeth Ofodol gydlynol sydd â’r nod o fynd i’r afael â materion sy’n gysylltiedig â chynllunio defnydd tir yng Nghyd-destun y Parc Cenedlaethol. Amlygwyd y materion hyn trwy adolygu’r holl dystiolaeth a oedd ar gael ac ymgynghori â’n rhanddeiliaid allweddol a’r gymuned. Crynhoir y materion hyn isod.



| | |
|---|---|
| a. Dibenion a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol | Effaith datblygiad ar y Parc Cenedlaethol a’i nodweddion arbennig, yn enwedig y dirwedd, geoamrywiaeth, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol. |
| b. Cynaliadwyedd a’r Newid yn yr Hinsawdd | Y gofyniad i addasu a lliniaru effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ac olew brig trwy ddatblygu cynaliadwy a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Cynaliadwyedd i fod yn sail i Gynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. |
| c. Potensial/ Capasiti ar gyfer twf | Y capasiti ar gyfer twf o ran y canlynol: i) Cyfyngiadau Amgylcheddol ii) seilwaith a iii) Cyfleustodau |

| | |
|---|---|
| d. Tai, gan gynnwys Tai Fforddiadwy | Yr angen i ddarparu cymysgedd o fathau o anheddau i fodloni’r angen am dai yn y Parc, ac yn enwedig i fodloni’r angen am dai fforddiadwy. |
| e. Datblygu Economaidd, gan gynnwys cyfleoedd Cyflogaeth | Yr angen am gyfleoedd cyflogaeth lleol a chysylltiadau â’r ddarpariaeth tai. |
| f. Cymunedau sy’n Ffynnu | Yr angen am dwf naturiol mewn pentrefi gwledig er mwyn caniatáu ar gyfer mwy o fywiogrwydd ac ansawdd bywyd mewn cymunedau. |

# Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol yw sicrhau'r canlynol....

***Bydd Bannau Brycheiniog yn fan lle y mae bywyd gwyllt, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd pawb sy'n byw neu'n gweithio yn y Parc, neu'n ymweld ag ef, yn profi ardal ffyniannus a bywiog, a bydd yr effaith ar yr amgylchedd lleol a byd-eang yn cael ei lleihau cymaint â phosibl i lefelau derbyniol***

Mae'r prif bolisïau cyffredinol yn amlinellu themâu strategol y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r polisïau hyn yn ceisio:

- rhoi dibenion y Parc Cenedlaethol wrth wraidd popeth y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio ei gyflawni
- hybu'r broses o fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru fel thema allweddol.

**Amcanion Strategol**

Nodweddion Arbennig (Polisïau SP1 ac SP3)

- Gwarchod a gwella nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Tirwedd y Parc Cenedlaethol (SP1, SP3, SP10)

- Sicrhau y bydd pob datblygiad yn y dyfodol yn amddiffyn a gwella cymeriad hardd ac amrywiol y dirwedd

***Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (2007-2022)***

Ar 14 Ebrill 2024, cytunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn amodol ar gytundeb Gweinidogion Cymru, i roi'r gorau i weithio i'r Cytundeb Cyflawni presennol a pharatoi Cytundeb Cyflawni newydd i'w drafod gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae angen i swyddogion baratoi cytundeb cyflawni sy'n dangos yr adnoddau dros y tymor byr i dymor canolig ar gyfer cynllun datblygu lleol newydd.





## Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

### Lleol

***Cynllun Cymunedol Crughywel, 2017***

Canllawiau Cynllunio Atodol yw'r Cynllun Cymunedol sy'n gosod sail ar gyfer datblygu yn y dyfodol, gan gyflwyno gweledigaeth ar gyfer y dref a nodi blaenoriaethau'r dref. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r materion a'r amcanion a amlygwyd gan breswylwyr a rhanddeiliaid. Mae'n rhoi sylw hefyd i bryderon pwysig sy'n gysylltiedig â bywiogrwydd a chynaliadwyedd y Dref. Mae proses y Cynllun Cymunedol wedi dod â'r rhanddeiliaid hynny sydd â diddordeb yn nyfodol Crughywel at ei gilydd i gytuno ar ddatblygiad cynaliadwy tra'n sicrhau cydbwysedd rhwng dyheadau ac anghenion sy'n aml yn gwrthdaro â'i gilydd.

Mae'r cynllun yn cyflwyno polisïau manwl sy'n rhoi sylw i faterion sydd o bwys i'r Dref. Wrth wneud hynny, rhoddwyd sylw dyladwy i'r polisïau strategol canlynol trwy gymhwyso eu nodau i amgylchiadau lleol penodol Crughywel. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n bum adran, gyda phob adran yn cynnwys set o amcanion a chamau gweithredu:

1. Y Gymuned
2. Datblygu Economaidd
3. Yr Amgylchedd
4. Parcio
5. Tai

Gweledigaeth y Cynllun yw: ***"Bydd Crughywel yn parhau i ffynnu fel canolfan bwysig i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn rhan ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol. Bydd yr ymdeimlad cryf o le sy'n deillio o'i leoliad yng nghanol golygfeydd ysblennydd, ynghyd â threftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol bwysig yr ardal yn parhau i ffurfio a dylanwadu ar dwf y dref.***
***Bydd datblygiadau'n gwneud cyfraniad positif gan barchu ac uniaethu â chyd-destun arddulliau pensaernïol a'r dirwedd sy'n gwneud yr ardal yn un unigryw ac uchel ei pharch. Bydd cyfleoedd datblygu newydd yn cyfrannu at atyniad y dref fel lle da i fyw. Bydd cymysgedd o fathau o anheddau yn y dyfodol yn cael eu galluogi, gyda phwyslais cryf ar ddarparu tai fforddiadwy gan sicrhau bod Crughywel yn denu preswylwyr o gymysgedd demograffig mwy amrywiol i adeiladu cymunedau cryf ar gyfer y dyfodol.***
***Bydd pob datblygiad newydd yn cael ei adeiladu mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod yr effaith amgylcheddol cyn lleied â phosibl, a bod cyfraniadau positif i liniaru effeithiau tebygol a rhagweladwy newid yn yr hinsawdd yn cael eu hymgorffori.***
***Bydd canol y dref yn tyfu fel cyrchfan fywiog lle bydd pobl yn dewis dod ar wyliau i brofi awyrgylch tref farchnad brysur gydag amrywiaeth o fusnesau arbenigol annibynnol a bwytai sy'n manteisio ar ddigonedd o fwydydd o safon sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol."***

Mae'r adran Gymunedol yn canolbwyntio ar gadw cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus lleol, yn enwedig y rhai ar gyfer dinasyddion hŷn (y mae nifer uchel ohonynt yng Nghrughywel). Mae'r adran Tai yn yr un modd yn canolbwyntio ar y gymuned, gan gydnabod yr angen i'r Cyngor Tref gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy yn ogystal â datblygu 'strategaeth tai gwag'.

Yn yr adran Datblygu Economaidd, nodir yr angen i arallgyfeirio'r economi leol, yn benodol drwy ddenu busnesau bach a chanolig mewn diwydiannau glân, uwch-dechnoleg. Mae seilwaith digidol o ansawdd addas yn hanfodol i ddenu busnesau o'r math hwn. Mae datblygu economaidd cynaliadwy yn fater allweddol i drefi llwyddiannus fel Crughywel sydd heb fawr o le i dyfu ac, yn achos Crughywel, mae angen cadw treftadaeth adeiledig y dref. Mae cyfres o gamau y mae angen eu cymryd i hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy wedi'u nodi yn y Cynllun Cymunedol, gan gynnwys: "Sicrhau bod y seilwaith technoleg ar gael i alluogi ehangu/datblygu busnes."

Mae parcio yn elfen allweddol o'r Cynllun Cymunedol ac mae'n ymddangos mewn sawl adran. O'r trigolion a holwyd ar gyfer y Cynllun Cymunedol, roedd ychydig yn fwy na 95% yn teimlo bod parcio yng Nghrughywel yn broblem, a mwyafrif yn ffafrio ariannu ymgynghorydd parcio.

O dan yr adran yn ymwneud â'r Amgylchedd, trafodir amrywiaeth helaeth o themâu a chamau, gan gynnwys baw cŵn, teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, ynni cymunedol a phlannu cymunedol.

## Polisi, Astudiaethau, Data a Lle

***Cynllun Lle Digidol Crughywel, Owen Davies Consulting, 2022***

Fe wnaeth Cyngor Sir Powys gomisiynu Owen Davies Consulting yng Ngwanwyn 2022 i gyflawni cynllun lle digidol ar gyfer Crughywel fel rhan o ddull Trefi Clyfar (Smart Towns) o ymdrin â chanol trefi. Mae'r Trefi Smart yn mynd ati i gofleidio technolegau newydd i gyflawni manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol megis cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a thwf mewn gwariant, gwell rheolaeth traffig, arbed ynni, strydoedd mwy diogel glanach, a mwy o gyfranogiad cyhoeddus. Mae'r Trefi Smart yn mabwysiadu'r un dechnoleg a data y mae brandiau cenedlaethol wedi bod yn eu defnyddio ers degawdau i alluogi busnesau bach a chanol trefi bach i gystadlu ar sail gyfartal. Mae Trefi Smart hefyd yn helpu gyda 'chodi'r gwastad' fel bod pob busnes a sefydliad mewn tref yn cael mynediad at yr un wybodaeth sydd ei hangen arnynt i dyfu eu busnesau a chanol y dref fel cyfanrwydd.

Wrth edrych ar gyfleoedd i'r dref, roedd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Mae cynlluniau ar gyfer rhwydwaith band eang ffeibr gwibgyswllt a rhwydwaith Wi-Fi tref (a fyddai'n darparu data ymwelwyr craff), yn cynrychioli buddsoddiadau sylweddol yn y maes digidol a Chrughywel fel cyfanrwydd.
- Y cyfle strategol allweddol i Grughywel yw datblygu ei seilwaith digidol i sicrhau bod yr holl ddarnau allweddol o seilwaith a thechnoleg ar waith. Ar hyn o bryd, nid oes rhwydwaith craff i fesur cyfraddau troedio na phorth LoRa ar waith. Byddai gosod y ddau ddarn o seilwaith yn y dref yn cynrychioli camau pwysig yn nhaith Tref Smart y dref ac yn hybu galluoedd digidol y dref, gan helpu i baratoi Crughywel ar gyfer y dyfodol.
- Mae fframwaith strategol clir a all gefnogi'r dref i gymryd y camau hyn ac mae'n gysylltiedig â nifer o gronfeydd ar y lefel genedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Mae blaenoriaethau digidol yn cynnwys:

- Gosod blociau adeiladu coll – gosod rhwydwaith cyfraddau troedio craff a phorth LoRa i alluogi canol y dref i ddatblygu ei allu digidol yn llawn.
- Rhannu data a dadansoddiadau cyfraddau troedio craff – yn rhoi gwybodaeth i fusnesau a rhanddeiliaid am gyfraddau troedio, amser a dreulir a dadansoddiadau eraill a all helpu i wella perfformiad a rheolaeth y ganolfan.
- Digwyddiadau a gwyliau - defnyddio rhwydwaith cyfraddau troedio craff i roi tystiolaeth gadarn i drefnwyr ynghylch cyfraddau troedio a nifer yr ymwelwyr i helpu i ddenu cyllid, rheoli digwyddiadau a chynllunio digwyddiadau yn y dyfodol.



# Heriau a Chyfleoedd

## Data Lle


Er mwyn helpu i ddeall llesiant Crughywel, mae'n ddefnyddiol ystyried data ac ystadegau a'u cymharu â lleoedd eraill sy'n debyg o ran maint a daearyddiaeth ac â Chymru yn ei chyfanrwydd. Mae'r canlynol yn helpu i ddarlunio peth o'r data y tu ôl i Grughywel, ei le a'i bobl:

### *Pobl a demograffeg*

Mae gan Grughywel boblogaeth breswyl o 2100, gyda 970 o aelwydydd wedi'u cofrestru yng Nghyfrifiad 2021. Mae'r rhaniad rhwng y rhywiau yn debyg i gyfartaledd Cymru sef 48.6% gwrywaidd a 51.4% benywaidd. Mae trigolion Crughywel yn tueddu i fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig gyda chyfradd o 54.4% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 43.8%.

Mae Ffigur 2 yn amlinellu'r dosbarthiad yn ôl oedran ar gyfer Crughywel, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae'r siart llinell yn dangos bod y blynyddoedd cynnar yn is na cyfartaledd Cymru nes cyrhaeddir y garfan oedran 15 i 19. Mewn oedran gadael ysgol, mae disgyblion yn tueddu i adael y dref gan ddychwelyd yn raddol yng nghanol a diwedd eu 40au gyda chynnydd sylweddol yn y preswylwyr hynny mewn oedran pensiwn, gyda chynnydd nodedig o 5.5% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru ar gyfer y grŵp oedran 70-74.

*Ffigur 2 – Dosbarthiad oedran Crughywel o gymharu â Chymru gyfan*





*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

## Heriau a Chyfleoedd

### *Iechyd*

Yn ôl data Cyfrifiad 2021 mae 31.7% o drigolion yn dweud bod eu hiechyd yn "dda", yn agos at gyfartaledd Cymru o 32.4%, gyda phobl ond 0.7% yn is na chyfartaledd Cymru.

*Ffigur 3 – Mynegeion Iechyd*





*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

Mae Ffigur 3 yn dangos graddau amddifadedd iechyd ar sail dangosyddion penodol, gyda Crughywel islaw cyfartaleddau Cymru ar sail yr holl fynegeion.

### *Addysg*

Mae Ffigur 4 yn dangos bod y gymuned leol yn rhagori tua 10% ar gyfartaledd Cymru mewn cymwysterau lefel 4 ac uwch (HNC, HND, Gradd, Meistr) gyda 5% yn is na'r cyfartaledd o ran pobl heb unrhyw gymwysterau.

*Ffigur 4 – Lefelau Cymwysterau*





*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

# Heriau a Chyfleoedd

Dengys Ffigur 5 yn dangos bod gan ddisgyblion ysgolion cynradd gyfradd cyrhaeddiad uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 ar gyfer darllen Saesneg, Mathemateg a gramadeg Saesneg, atalnodi a sillafu. Yn yr un modd yng Nghyfnod Allweddol 4 (TGAU), mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos lefel cyrhaeddiad uwch na chyfartaledd Cymru.

Ffigur 5 – Mynegeion Addysg





*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

Mae dangosyddion eraill yn dangos lefelau isel o absenoldeb ysgol, gyda chyfran 20% yn uwch na chyfartaledd Cymru o breswylwyr yn mynd i addysg uwch a chyfran is o drigolion heb ddim cymwysterau na chyfartaledd Cymru gyfan.

### *Incwm a Chyflogaeth*

Mae Ffigur 6 yn dangos bod trigolion Crughywel yn llai tebygol o fod yn economaidd weithgar o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn gysylltiedig â'r siart dosbarthiad oedran yn Ffigur 2 sy'n amlygu'r niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl dros oedran pensiwn, ac felly'n tueddu o beidio â bod mewn cyflogaeth.

Ffigur 6 – Statws Gweithgarwch Economaidd





*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

# Heriau a Chyfleoedd

Mae Ffigur 7 yn amlygu'r lefelau uwch na'r cyfartaledd o alwedigaethau yn y sectorau proffesiynol a rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion, gyda thangynrychiolaeth nodedig mewn gweithredwyr prosesau a pheiriannau, ac yn y galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddiaeth.

Ffigur 7 – Math o Alwedigaeth





*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

*Heddwch a Chyfiawnder*

Mae Ffigur 8 yn dangos y lefelau o droseddau a gofnodir ar gyfer Crughywel o gynharu â chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r data'n dangos bod y dref yn profi 50% o gyfartaledd lefelau troseddu yng Nghymru.

Ffigur 8 – Lefelau o Droseddau a Gofnodwyd





*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

# Heriau a Chyfleoedd

*Tai*

Mae Ffigur 9 yn dangos lefelau meddiannaeth o fewn aelwydydd lleol, gyda Crughywel â chyfran uwch o aelwydydd 2 berson ac aelwyd teulu sengl na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae cynrychiolaeth ychydig yn is o 1 a 3 o bobl mewn meddiannaeth aelwydydd.


Ffigur 9 – Lefelau Meddiannaeth yn ôl Cartref




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

Wrth edrych ar ansawdd tai, mae Ffigur 10 yn dangos bod Crughywel ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer cartrefi gorlawn, amodau o ansawdd gwael, tai sy'n cynnwys peryglon difrifol a thai mewn cyflwr gwael.


Ffigur 10 – Lefelau o Ansawdd Tai




*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

Yn olaf, mae Ffigur 11 yn dangos i ni fod bron i 18% yn uwch na chyfartaledd Cymru yn berchen ar eu tŷ yn llwyr (50.6%) heb forgais na benthyciad a hefyd 2.8% yn uwch na chyfartaledd Cymru o ran tenantiaid cymdeithasol (19.3%). Mae'r dangosydd cyntaf yn gysylltiedig â'r proffil oedran i'r gymuned sydd â chyfran uwch o breswylwyr o oedran pensiwn a mwy, yn byw yn y gymuned, sy'n fwy tebygol o fod wedi talu eu morgais a bod â pherchenogaeth lawn o'u cartref.

Ffigur 11 – Deiliadaeth Aelwyd




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

## Heriau a Chyfleoedd

*Cofrestr Tai Cyffredin Powys ar gyfer Tai Cymdeithasol*

Crughywel - Rhagfyr 2023

**1. Crynodeb**

| | |
|---|---|
| Dewis cyntaf teuluoedd | 142 |
| Ail ddewis neu ddewis dilynol teuluoedd | 111 |
| Aelwydydd â chyswllt lleol | 137 |

**2. Angen am Dai ar Alw**
Band 1, 2 a 3: Teuluoedd sydd mewn angen am dai
Band 4: Teuluoeedd sydd mewn angen am dai, ond na wnânt symud
Band 5: Teuluoedd gydag angen a heb angen am dai, ond sy'n barod i symud.

Mae'r nifer o ystafelloedd gwely y cyfartaledd o isafswm ac uchafswm nifer o ystafelloedd gweld sydd eu hangen yn ôl polisi dyrannu cyffredin. Gall y cyfansymiau wahaniaethu oherwydd talgrynu.

**Teuluoedd a gofrestrwyd gyda Crughywel fel y dewis cyntaf a ffefrir.**

| Dewis 1af | 1-llofft | 2-llofft | 3-llofft | 4-llofft | 5-llofft | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1,2,3 | 19 | 15 | 10 | 5 | 2 | 49 |
| Band 4 | 51 | 22 | 8 | 1 | 1 | 82 |
| Band 5 | 7 | 3 | 1 | 0 | 0 | 11 |
| **Cyfanswm** | **76** | **39** | **19** | **6** | **3** | **142** |

Mae ffigurau'r rhestr aros yn dangos bod y nifer mwyaf o deuluoedd ar y rhestr aros am gartrefi 1-llofft ar draws pob un o'r bandiau.

**Teuluoedd a gofrestrwyd gyda Crughywel fel yr ail ddewis neu ddewis dilynol a ffefrir**

| Dewis 1af | 1-llofft | 2-llofft | 3-llofft | 4-llofft | 5-llofft | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1,2,3 | 24 | 15 | 5 | 5 | 0 | 47 |
| Band 4 | 26 | 17 | 8 | 5 | 0 | 55 |
| Band 5 | 5 | 2 | 3 | 0 | 0 | 9 |
| **Cyfanswm** | **54** | **33** | **15** | **10** | **0** | **111** |

**Teuluoedd a gofrestrwyd gyda Crughywel fel y dewis a ffefrir ganddynt (y ddau dabl uchod wedi eu cyfuno)**


| Dewis 1af | 1-llofft | 2-llofft | 3-llofft | 4-llofft | 5-llofft | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band 1,2,3 | 42 | 29 | 14 | 10 | 2 | 96 |
| Band 4 | 77 | 38 | 16 | 6 | 1 | 137 |
| Band 5 | 12 | 5 | 4 | 0 | 0 | 20 |
| **Cyfanswm** | **130** | **72** | **34** | **16** | **3** | **253** |

# Heriau a Chyfleoedd

*Trafnidiaeth a Symudedd*

Mae Ffigur 12 yn dangos i ni fod trigolion Crughywel yn ddibynnol ar un, dau neu fwy o geir neu faniau yn eu cartref o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sydd rhyw 2 i 3 phwynt canran o wahaniaeth, oherwydd eu natur weledig a'u lleoliad rhwng Aberhonddu a'r Fenni, ymhlith lleoedd eraill.


Ffigur 12 - Nifer y ceir neu faniau fesul cartref




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

Yr hyn a ddangosir gan Ffigur 13 yw, pan fydd yn rhaid i bobl deithio i'r gwaith nad yw'n lleol, sef llai na 30 km, ond ymhellach i ffwrdd fel Caerdydd a Bryste, fod trigolion Crughywel 6% yn uwch na chyfartaledd Cymru yn teithio dros 30 km i'r gwaith (12.1%). Diddorol yw nodi bod 31.2% o drigolion Crughywel yn gweithio o gartref, tua 6% uwch na chyfartaledd Cymru. Mae gan Grucywel gysylltiadau agos â'r Fenni ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, yn ogystal â phentrefi fel Gllwern.

Ffigur 13 - Pellter Teithio i'r Gwaith





*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*

Mae Ffigur 14 o'r adnodd Deall Lleoedd Cymru, yn dangos cyfanswm y niferoedd a'r canrannau o gymudwyr sy'n teithio rhwng Crughywel a lleoedd eraill gyda phoblogaeth uwch na 2000 o bobl, yng Nghymru a Lloegr. Mae trwch y llinell yn dynodi cyfran gymharol y cymudwyr. Mae lliwiau cynnes (er enghraifft, oren) yn dangos bod mwy o bobl yn symud i rywle, tra bod lliwiau oer (er enghraifft, glas) yn dangos bod mwy o bobl yn symud allan o rywle. Rhai o'r cyrchfannau nodedig yw:

- Y Fenni 9.8%
- Aberhonddu 4.7%
- Caerdydd 2.2%
- Cwmbran 2.1%
- Merthyr Tudful 1.5%
- Llundain 0.7%

Ffigur 14 - Pellter Teithio i'r Gwaith





*Ffynhonnell: Deall Lleoedd Cymru*

# Heriau a Chyfleoedd

Mae Ffigur 15 yn amlygu pa mor hygyrch yw Crughywel fel lle, yn benodol o ran mynediad at wasanaethau. Er bod ysgol uwchradd, cyfleusterau chwaraeon, llyfrgell, ysgol gynradd, swyddfa bost a meddygfa i gyd yn y dref, mae'r data hyn sy'n gysylltiedig â darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn dangos cynnydd mewn amseroedd teithio a allai fod oherwydd llwybr a nifer y safleoedd bws. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn hefyd wedi'u gwasgaru ymhellach i ffwrdd lle gall rhai disgyblion deithio i ysgolion uwchradd y tu allan i'r dref e.e. Ysgol y Brenin Harri VIII yn Y Fenni. Gwelir bod mynediad at siop fwyd yn haws o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan.


Ffigur 15 - Mynediad at Wasanaethau




*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

Mae Ffigur 16 yn dangos amserau teithio mynediad at wasanaethau trwy ddefnyddio cerbyd preifat, gyda dim ond yr amser cyfartalog i ysgol gynradd (8 munud) yn fwy na chyfartaledd Cymru.

Ffigur 16 – Amserau Teithio at Wasanaethau




*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

# Heriau a Chyfleoedd


*Amgylchedd Ffisegol*

Ffigur 17 yw maes amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sy'n cymharu Crughywel â chyfartaledd Cymru a phentrefi cyfagos. O ran llygryddion aer, mae'r data ymhell o fewn y cyfartaledd crynodiad blynyddol o 40ug/m3.

O ran y sgôr perygl llifogydd, mae Crughywel rhyw saith pwynt y tu ôl i Langatwg a Glangrwyne ar 14.9.

Mae'r dref yn sgorio'n uchel iawn ar agosrwydd at fannau gwyrdd hygyrch gyda 94.5% o drigolion yn cael mynediad at yr ased hwn, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 77%.

Ffigur 17 - Mynegeion yr Amgylchedd Ffisegol





*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

*Amddifadedd*

Mae Ffigur 18 yn dangos ardaloedd daearyddol yr ardal gynnyrch ehangach haen is W01001903 sy'n cynrychioli'r ardal agosaf at ffin y dref.

Ffigur 18 - Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is





*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

# Heriau a Chyfleoedd

Mae Ffigur 19 yn dangos crynodiad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer Crughywel, sy'n ei osod ar safle 1479 allan o 1909 gan olygu ei fod ymysg y lleoedd sydd â'r "amddifadedd lleiaf". Wrth edrych ar feysydd penodol amddifadedd, mae Crughywel fel ei phentrefi cyfagos Llangynidr a Llangatwg yn sgorio isaf ar fynediad at wasanaethau, ac yna tai.

Ffigur 19 - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o'i gymharu â lleoedd cyfagos




*Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru*

# Dadansoddiad o'r Lle

Mae'r enw Crughywel, sy'n golygu Mynydd Hywel, yn cyfeirio at y fryngaer gynhanesyddol ar ben Crug Hywel – y bryn ac iddo gopa gwastad (Table Mountain yn Saesneg) sy'n sefyll uwchben y dref.

## Hanes

Sefydlwyd Castell Crughywel yn fuan ar ôl y Goncwest Normanaidd rywbryd at ddiwedd yr 11g. Datblygodd y dref tua'r adeg pan ail-atgyfnerthwyd y castell, gan osod strydoedd rheolaidd a lleiniau adeiladu o'i gwmpas. Daeth y dref yn blwyf yn dilyn adeiladu eglwys y plwyf, Eglwys Sant Edmwnd, yn 1303 gan yr Arglwyddes Sibyl Pauncefote. Mae arddelw ohoni hi, ynghyd â'i gŵr, yn gorwedd o fewn yr eglwys.

## Topograffeg

Mae llawer o'r dref wedi'i lleoli ar lethr graddol uwchben Afon Wysg ac mae'r adeiladau'n camu i fyny'r llechwedd mewn patrwm deniadol sy'n cynnig golygfeydd hardd o bell ac agos. Dynodwyd yr afon gyfan yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA neu SSSI) ac mae ganddi lawer o nodweddion diddorol, megis fflatiau llaid, morfeydd heli, morlynnoedd a chorsdiroedd yn ogystal â'r glaswelltiroedd naturiol a'r coetir sy'n gorchuddio'r caeau a'r bryniau cyfagos.

## Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymunedol

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghrughywel yn cael eu darparu gan Gyngor Sir Powys a hefyd gan Gyngor Tref Crucghywel. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gyfrifol am faterion cynllunio. Mae yna ysgol gynradd ac ysgol uwchradd; a'r ddwy yn gweithredu fel pwynt canolog i ddalgylch mawr. Mae clybiau criced, pêl-droed a thenis ymhlith y nifer o sefydliadau chwaraeon yn yr ardal.

## Mynediad a Chysylltiadau

Gellir cyrraedd y dref ar hyd yr A40 a'r A4077, sy'n rhedeg trwy ganol y dref. Mae gwasanaethau bysiau ar gael yn ôl ac ymlaen i'r Fenni ac Aberhonddu. Nid oes gwasanaethau trên i'r dref hon ac yn y Fenni mae'r orsaf drenau agosaf.

## Twristiaeth

Mae pobl yn ymweld â Chrughywel i weld y Mynydd Du a Bannau Brycheiniog, ac i fwynhau beicio mynydd, gwersylla, cerdded mynyddoedd, dringo creigiau, pysgota plu, barcuta neu garafanio, neu i fynd ar daith o amgylch yr ardal mewn car, gan aros mewn llety gwely a brecwast.

Mae lleoedd fel The Bear Hotel, Pont Crughywel a Stryd y Tŵr yn parhau fel nodweddion hanesyddol y dref i ymweld â nhw heddiw.

## Cynllun y Dref

Mae craidd hanesyddol y dref yn canoli ar Market Place, y Stryd Fawr, ac yn ymestyn i lawr Stryd y Bont tuag at yr afon. Mae Crughywel yn anheddiad wedi'i gynllunio gyda'r craidd hanesyddol yn arddangos patrwm grid o strydoedd ar ongl sgwâr i'w gilydd. Mae'r datblygiad diweddarach ar hyd Mae'r A40 o ddwysedd is yn gyffredinol gydag adeiladau wedi'i osod yn ôl o'r ffordd o fewn lleiniau mwy eang.


















The Bear Hotel


# Trafnidiaeth a Symud

Mae'r A40 yn ffurfio'r llwybr symud allweddol i'r dwyrain a'r gorllewin drwy'r dref a rhwng Aberhonddu a'r Fenni.

Mae'r dref hefyd yn cael ei gwasanaethu'n dda i'r de gan yr A4077 sy'n cysylltu'r dref â Ffordd Blaenau'r Cymoedd (A465). Mae hyn yn caniatáu cysylltiadau da ymlaen â thraffordd yr A470 a'r M4.

Mae ffyrdd allan o ogledd y dref yn helpu i wasanaethu'r pentrefi llai cyfagos fel Llanbedr.

Mae'r ddarpariaeth bysiau yn y dref yn bennaf ar hyd yr A40, gan ddarparu cysylltiadau rheolaidd rhwng Aberhonddu a'r Fenni.




Map trafnidiaeth a symud

**Allwedd**

- Cefnffordd / Prifffordd
- Ffyrdd eilaidd
- Ffyrdd culach na 4m
- Strydoedd mewnol
- Safleoedd bws


# Llwybrau i Gerddwyr

Un o gryfderau allweddol y dref yw ei llwybrau i'r cefn gwlad o'i hamgylch.

Mae Ffordd Cambria yn daith 300 milltir rhwng Caerdydd a Chonwy. Mae'r daith yn rhedeg i'r gogledd i'r de trwy'r dref, gan gynnwys y Stryd Fawr. Mae Ffordd y Bannau a Cwmbeth hefyd yn mynd i'r gogledd allan o'r dref ac yn cynnig llwybrau i fyny Crug Hywel a ledled y Mynydd Du.

Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn caniatáu mynediad ar hyd Afon Wysg, trwy Ddolydd Bullpit ac i'r dwyrain a'r gorllewin allan o'r dref.

Mae'r rhwydwaith strydoedd o fewn y dref yn canolbwyntio ar hyd yr A40 fel bod modd cyrraedd y dref ar droed, ond nid yw'r A40 yn darparu profiad dymunol i gerddwyr.




Map o'r llwybrau i gerddwyr

**Allwedd**

Llwybrau i gerddwyr

Llwybrau cenedlaethol


# Rhwydwaith Teithio Llesol Arfaethedig

Cynigir cyfres o welliannau i ffyrdd a strydoedd ar hyd a lled Crughywel er mwyn helpu i wella teithio llesol yn yr ardal.

Bydd hyn yn canolbwyntio ar wella llwybrau cerdded a beicio drwy'r dref ac i'r ardaloedd cyfagos.

Bydd hyn yn canolbwyntio ar y llwybrau allweddol i mewn ac allan o'r dref, gan gynnwys yr A40 a'r A4077. Bydd hyn yn helpu i wella cysylltiadau â Llangatwg i'r de o'r dref.

Bydd gwelliannau eraill yn helpu gyda gwell cysylltedd trwy'r dref a rhwng meysydd allweddol fel canol y dref, ysgolion a Dolydd Bullpit.




**Allwedd**

Llwybrau cerdded a beicio yn y dyfodol

Llwybrau cerdded yn y dyfodol

Map Rhwydwaith Teithio Llesol

# Tirnodau a Chyrchfannau Allweddol

1. **Pont Crughywel** – Porth allweddol i'r de o'r dref
2. **Eglwys Sant Edmwnd** – Adeilad nodedig gyda meindwr i'w weld o'r ardal gyfagos
3. **Neuadd y Farchnad** – Neuadd hanesyddol gyda lle agored ar y llawr gwaelod ar gyfer marchnadoedd
4. **Ffynnon Goffa Lucas** - a godwyd tua 1900 ac sydd yng nghanol canol y dref
5. **The Bear Hotel** – Wrth i'r ffordd gulhau drwy ganol y dref ger y gwesty achosir tagfeydd
6. **Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel** - Prif bwynt cyrraedd i ymwelwyr sy'n parcio yn y maes parcio arhosiad hir
7. **Castell Crughywel** - Mae adfeilion castell hanesyddol yn ffurfio tirnod canolog parc
8. **Ysgol Uwchradd a Chanolfan Chwaraeon Crughywel** - Cyrchfan ac adnodd allweddol i bobl leol
9. **Ysgol Gynradd Crughywel** - Adnodd allweddol i'r dref



# Seilwaith Gwyrdd a Mynediad

1. **Dolydd Bullpit** - Ardal fawr o lecynnau agored cyhoeddus gyda mynediad at yr afon a'r cefn gwlad ehangach
2. **Parc Carafanau Riverside** - Parc poblogaidd i garafanau sefydlog a symudol
3. **Mynwent Eglwys Sant Edmwnd** - Ar hyn o bryd mae'r capasiti ynddi yn gyfyngedig
4. **Parc Castell Crughywel** - Parc Chwarae gydag adfeilion hanesyddol y castell yn gefndir iddo
5. **Clwb Criced a Tenis Crughywel** - Cae criced a chyrtiau tenis wrth ymyl y parc
6. **Ysgol Uwchradd a Chanolfan Hamdden Crughywel** - cwrt tenis a chaeau chwaraeon o fewn, a gerllaw, tir Dolydd Bullpit
7. **Meysydd Ysgol Gynradd Crughywel** – Tiroedd nad ydynt ar gael i'r cyhoedd
8. **Parc y Frenhines Elizabeth II** - Parc gyda lle chwarae a chae chwaraeon tu ôl i eiddo preswyl
9. **Rhandiroedd Crughywel** – Maent wedi eu lleoli yng nghanol y dref ac ar hyn o bryd maent yn un o ychydig yn unig o opsiynau ar gyfer tyfu bwyd yn yr ardal





Green infrastructure and access

# Ardal Perygl Llifogydd (Afon Wysg)

Mae Afon Wysg yn llifo ar hyd ymyl ddeheuol y dref. Mae'r ardal yn dueddol o ddioddef llifogydd yn ystod digwyddiadau glaw uchel.

Fel arfer, mae'r llifogydd wedi'u cyfyngu i'r mannau gwyrdd cyfagos, ond maent hefyd wedi effeithio ar eiddo cyfagos yn ddiweddar.

Mae'r map llifogydd gyferbyn yn delweddu perygl llifogydd o fap llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru a ddiweddarwyd ar 17 Gorffennaf 2023.




Ardaloedd perygl llifogydd Afon Wysg

# Dadansoddiad o'r Cyd-destun Adeiledig

Mae Ardal Gadwraeth Crughywel a Llangatwg yn un o bedair ardal gadwraeth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac fe'i dynodwyd yn 1969.

Mae Cynllun Cymunedol Crughywel (2017) yn nodi polisïau manwl sy'n ymdrin â materion sy'n bwysig i'r Dref. Mae ardal gadwraeth Crughywel yn amrywiol ac o fewn ei ffin mae ardaloedd gyda'u nodweddion unigol eu hunain, yn amrywio rhyngddynt a'i gilydd ond yn y pen draw yn dod gyda'i gilydd i ffurfio cymeriad cyffredinol ardal hanesyddol y dref. Mae'n cynnwys cymysgedd o adeiladau o'r cyfnod canoloesol ymlaen, gan gynnwys bythynnod brodorol, grwpiau o adeiladau a gynlluniwyd fel darnau pensaernïol, tai statws uchel, adeiladau dinesig a filâu bach. Mae cyfran uchel o'r adeiladau yng nghanol y dref wedi'u rhestru.

Mae ardaloedd cadwraeth wedi'u dynodi am eu rhinweddau arbennig, ond o fewn yr ardal ddynodedig gall fod ardaloedd sydd â'u nodweddion unigryw eu hunain.

Mae 7 ardal o gymeriad wedi cael eu pennu yng Nghrughywel:


- Canol y Dref
- Lôn yr Eglwys
- Stryd y Bont a Lamb Lane
- Y Castell a Dwyrain Crughywel
- Gorllewin Crughywel
- Fferm Upper House
- Glannau'r afon

Bydd angen ystyried yr ardal gadwraeth a'i nodweddion mewn unrhyw gynigion.

Gellid hyrwyddo dylunio da yn well trwy adolygiad o'r arfarniad presennol o Ardal Gadwraeth Crughywel ac ymgorffori gwell polisïau a chanllawiau i'r Ardal Gadwraeth yn ei chyfanrwydd.

**Allwedd**

- Ffin yr Ardal Gadwraeth
- Gorllewin Crughywel
- Upper House Farm
- Canol y Dref
- Lôn yr Eglwys
- Stryd y Bont a Lamb Lane
- Y Castell a Dwyrain Crughywel
- Glannnau'r afon



Ardaloedd Cadwraeth Cymeriad Crughywel

# Dadansoddiad o'r Cyd-destun Adeiledig

## Canol y Dref

Mae ardal Canol y Dref yn troi o gwmpas y Stryd Fawr a'r Farchnad a phen gorllewinol Stryd Beaufort, Stryd y Tŵr, rhan o Lôn yr Eglwys, a darn byr o Standard Street ar ochr ogleddol Market Place.

Mae cynllun strydoedd ein dyddiau ni yn dal i adlewyrchu patrwm canoloesol y stryd, ac mae'r lleiniau bwrdais cul yn dal i fod yn amlwg ar ochr orllewinol y Stryd Fawr. Nodweddir yr ardal hon yn bennaf gan ddatblygiad trefol dwys.


Mae canran uchel o'r adeiladau yn ardal cymeriad Canol y Dref wedi'u rhestru. Mae gan graidd canol y dref sy'n canolbwyntio ar y Stryd Fawr a Market Place ymdeimlad cryf o amgaead gyda ffryntiadau di-dor wedi'u gosod ar ymyl cefn y palmant.

Mae cymysgedd o adeiladau 1.5, 2 a 3 llawr, amrywiadau yn lled ffryntiadau adeiladau ac mae amrywiadau mewn ffurfiau to hefyd yn creu diddordeb. Mae adeiladau cornel cryf yn nodwedd o ganol y dref, er enghraifft wrth gyffordd Stryd y Twr gyda'r Stryd Fawr.

## Upper House Farm

Mae'r ardal gymeriad hon yn cwmpasu ardal fach o Standard Street wrth iddi fynd tua'r dwyrain ac yn canolbwyntio ar Ffermdy Upper House a'r adeiladau fferm traddodiadol bob ochr i'r stryd. Mae'r ardal yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau preswyl a masnachol.

Amgaeir y stryd ag adeiladau wedi'u gosod ar ymyl cefn y palmant; mae lleiniau'n dechrau cael cymeriad mwy agored gydag adeiladau wedi'u gosod yn ôl o'r stryd, o fewn lleiniau mwy.





Canol y dref – adeiladau 2 a 3 llawr gyda pharcio ar y stryd


Canol y dref – ffryntiadau cryf


Canol y dref – tai teras â nodweddion arwynebol minimalistig


Upper House Farm – adeiladau traddodiadol

# Dadansoddiad o'r Cyd-destun Adeiledig

### Gorllewin Crughywel

Mae'r ardal gymeriad hon yn cynnwys y tir ar ochr orllewinol Ffordd Newydd yn bennaf, ac mae'n parhau ar hyd Ffordd Aberhonddu, gan fynd tua'r gorllewin i ffwrdd o ganol y dref.

Ardal breswyl yw hon yn bennaf gyda chymysgedd o derasau byr, tai pâr bach, filâu ar wahân, a rhywfaint o fewnlenwi modern. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn ddau lawr. Mae gan y rhan fwyaf o'r unedau ffasâd wedi'i rendro gydag ychydig o eithriadau o ffasadau cerrig traddodiadol.

### Lôn yr Eglwys


Mae ardal gymeriad Lôn yr Eglwys wedi'i lleoli bellter byr i'r gogledd-orllewin o'r Stryd Fawr ac mae'n canolbwyntio ar Eglwys Sant Edmwnd a'i mynwent. Mae Lôn yr Eglwys yn dramwyfa gul sy'n cysylltu'r Stryd Fawr â'r Ffordd Newydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r ardal hon yn cynnwys tai teras yn bennaf wedi'u gosod yn agos at y stryd. Mae'r adeiladau yn dilyn arddull debyg i'r eglwys ei hun; pensaernïaeth Gothig gyda ffasadau cerrig traddodiadol, toeau onglog a hanner waliau cerrig rwbel.

### Stryd y Bont

Mae'r ardal gymeriad hon yn canolbwyntio ar ardaloedd preswyl yn bennaf Stryd y Bont a Lamb Lane, i'r de-orllewin o'r Stryd Fawr. Cyn adeiladu'r Ffordd Newydd, Stryd y Bont oedd yr hen ffordd i lawr at afon Wysg.

Mae Stryd y Bont yn stryd gul, droellog gyda bythynnod o gymeriad o'r 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif. Deulawr yn bennaf yw'r adeiladau ac ar ymyl cefn y palmant, gan roi ymdeimlad amgaeedig a chlyd i'r stryd.






Gorllewin Crughywel



Gorllewin Crughywel t- traditional buildings



Lôn yr Eglwys – Tai cerrig traddodiadol y tu ôl i Eglwys Sant Edmwnd



Stryd y Bont – Stryd gul gyda thai teras deulawr

# Dadansoddiad o'r Cyd-destun Adeiledig

## Y Castell a Dwyrain Crughywel

Mae'r ardal gymeriad hon wedi'i lleoli ar ochr ddwyreiniol y dref. Mae'n canoli ar safle Castell Alisby (Castell Crughywel) a'r gyfres o fannau gwyrdd agored i'r dwyrain o'r Castell, rhwng Beaufort Street a Heol y Castell.

Mae bythynnod pâr deniadol ar gornel Heol y Castell a Beaufort Street yn borth gweledol i'r ardal gadwraeth o'r dwyrain. Mae gan ardal gymeriad y Castell gymysgedd o adeiladau hanesyddol a modern. Mae waliau ffin cerrig yn ei diffinio. Mae tai hanesyddol yn amrywio rhwng tai hanesyddol eithaf mawr a therasau byr cymedrol eu maint.

Ar ochr ogleddol Beaufort Road ceir grŵp o dai isel modern, rhai wedi'u hamgáu mewn gerddi sylweddol eu maint. Mae waliau ffin cerrig hefyd yn nodwedd gref ar hyd dwy ochr Beaufort Street a hefyd ar hyd Ffordd y Castell.



## Glan yr Afon

Mae'r ardal gymeriad hon yn canolbwyntio ar goridor Afon Wysg a hefyd ar y rhwydwaith o fannau agored i'r de o Ffordd y Castell. Mae'r ardal hon yn lle gwyrdd agored, yn bennaf; fodd bynnag, mae Pont Crughywel yn strwythur hanesyddol allweddol. Mae'r bont yn adeilad rhestredig gradd I a hefyd yn Heneb Restredig.

Mae llecyn amwynder agored Safle Picnic Bullpit yn ardal fawr o ddolydd ar ochr ogledd-ddwyreiniol yr afon. Mae'r borfa sy'n ffinio â'r afon a Safle Picnic Bullpit yn gwneud cyfraniad pwysig i leoliad y bont restredig .



Bythynnod wrth porth y dref



Adeiladau cerrig traddodiadol



Pont Crughywel

# Heriau & Chyfleoedd

Cyflawnwyd dadansoddiad llawn o'r dref a chanfuwyd yr heriau a'r cyfleoedd canlynol.





Porth i'r dref nad yw wedi'i ddiffinio'n dda, a heb ddim cymhelliad i geir arafu




Amgylchedd o ansawdd gwael o amgylch y safle bws a mynedfa'r ysgol




Parc sylweddol ei faint gydag ardal chwarae wedi ei chuddio y tu ôl i adeiladau



# Heriau & Chyfleoedd

4



Strydoedd wedi cael eu cynllunio ar gyfer ceir ac nid ydynt yn cynnig fawr ddim i annog cerdded a beicio

5



Yr A40 yn creu ffordd o dan oruchafiaeth traffig yn y dref

6



Ardal y garej yn ffurfio porth gwael i'r dref

7



Man allweddol yng nghraidd y dref o dan oruchafiaeth ceir ac yn teimlo'n anniogel i groesi

8



Cysylltiadau aneglur i gerddwyr rhwng canol y dref a'r Ysgol Uwchradd

9



Porth gwael i'r dref nad yw'n gwneud defnydd o lecynnau a lleiniau gwyrdd

10



Parc y Castell yn cynnig llannerch werdd a lle chwarae o fewn y dref, ond sydd â chysylltiadau gweledol gwael â'r prif ffyrdd

11



Lle deniadol i gerdded ar hyd stryd hanesyddol rhwng canol y dref a llecyn gwyrdd glan yr afon

12



Mae'r porth dros bont hanesyddol o dan oruchafiaeth ceir

13



Dolydd Bullpit, llecyn gwyrdd deniadol gyda llwybr ar hyd glan yr afon ond o fewn gorlifdir fel mae rhan isaf y dref. Gallai'r llwybr a'r dolydd ar lan yr afon i'r dwyrain o bont Crughywel gael mwy o ddefnydd a'i arwyddo'n well

# Dadansoddiad SWOT - Pobl

## Cryfderau



- Dangosyddion iechyd yn dda o gymharu â chyfartaledd Cymru
- Cyfran uwch o drigolion â chymwysterau Lefel 4 a chyrhaeddiad uchel mewn oedran ysgol gynradd, yn arwain at lefelau isel o rai heb ddim cymwysterau
- Lefelau uchel o alwedigaethau yn y sector proffesiynol a rheolwyr
- Lefelau isel o droseddu o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan
- Band eang (30mb/eiliad) ar gael yn helaeth o gymharu â lefelau Cymru gyfan
- Mae gan 95% o'r trigolion fynediad at lecyn gwyrdd hygyrch
- Nifer uchel o sefydliadau cymunedol gweithgar

## Gwendidau



- Nid yw poblogaeth y dref yn gytbwys gan fod iddi gyfran uchel o bobl dros 65 oed
- Lefelau uwch na'r cyfartaledd o anweithgarwch economaidd
- Anghydbwysedd mewn cyfleoedd gwaith lleol: lefel uchel o swyddi proffesiynol a rheolaethol. Diffyg cyfloedd lefel mynediad neu swyddi llaw a gweinyddol
- Rhai problemau ansawdd tai fel cyflwr gwael, angen atgyweiriadau
- Dibyniaeth uwch na'r cyfartaledd ar geir/faniau, rhyw 3% pwynt yn uwch na chanolrif Cymru
- Goruchafiaeth o all-gymudo gyda 12% yn teithio dros 30km i'r gwaith
- Rhwystrau teithio rhag dysgu galwedigaethol y tu allan i'r ardal
- O fewn y dref, mae mynediad at wasanaethau drwy drafnidiaeth gyhoeddus yn wael, gydag amseroedd teithio dwyffordd yn ddwywaith cyfartaledd Cymru i gyfleusterau fel ysgolion, chwaraeon a meddygfeydd teulu
- Mae amser teithio dwyffordd preifat i'r ysgol gynradd ddwywaith cyfartaledd Cymru
- Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn nodi mynediad at wasanaethau (377) a thai (578) fel y meysydd sy'n sefyll allan fwyaf
- Cyfle i integreiddio mwy ar sefydliadau cymunedol

# Dadansoddiad SWOT - Pobl

## Cyfleoedd



- Cyngor Tref sydd eisiau galluogi newid o fewn y gymuned, gan ddefnyddio'r Cynllun Lle fel cyfrwng allweddol ar gyfer newid
- Mae 31.2% o drigolion yn gweithio o'u cartrefi, 6% yn uwch na chyfartaledd Cymru

## Bygythiadau



- Bygythiad newid hinsawdd i fywyd cymunedol gyda'r angen i ddatblygu gwydnwch a chanfod ffyrdd o liniaru a/neu addasu.
- Angen newid i ynni adnewyddadwy i fynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig a symud oddi wrth danwyddau ffosil
- Mae enw da'r dref fel lle llewyrchus yn cuddio problemau costau byw i bobl leol
- Dim enw da gan gyrff cyhoeddus a'r hyder ynddynt yn wael
- Pwysau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus
- Mae adolygiad o ddalgylch yr ysgolion wedi arwain at gau un ysgol gynradd mewn cymuned gyfagos
- Dibyniaeth gynyddol ar wirfoddolwyr i redeg clybiau, grwpiau a gwasanaethau lleol
- Mae enw da'r Ysgol Uwchradd a'i chweched dosbarth llwyddiannus yn gaffaeliad enfawr i'r dref, ond caiff y potensial am gysylltiadau rhwng y dref a'r ysgol eu tanddefnyddio

# Dadansoddiad SWOT - Lle

## Cryfderau



- Cyrchfan adnabyddus o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n apelio at amrywiaeth o ymwelwyr
- Tref sydd wedi'i nythu o dan y Mynydd Du ac iddi batrwm cyflawn o strydoedd hanesyddol
- Craidd hanesyddol y dref sy'n canolbwyntio ar Market Place, y Stryd Fawr, ac yn ymestyn i lawr Stryd y Bont tuag at afon Wysg
- Mynediad at seilwaith gwyrdd e.e. Dolydd Bullpit
- Amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon a hamdden awyr agored sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr
- Profiad o Gynllun Cymunedol blaenorol 2017
- Canol tref sy'n seiliedig ar fasnachwyr annibynnol o ansawdd da gydag amrywiaeth o gynigion i wasanaethu trigolion lleol a thwristiaid
- Prif ran y Stryd Fawr a'i gynnig manwerthu craidd 'o'r golwg', sef nid yw'n brif ffordd drwodd i gerbydau felly mae'r traffig yn gymharol isel

## Gwendidau



- Mae'r A40 yn creu toriad ac yn cyfyngu ar hygyrchedd a phrofiad cerddwyr
- Mae perygl llifogydd yn effeithio ar ardaloedd is o seilwaith gwyrdd ac ar y graddau maent yn hygyrch drwy gydol y flwyddyn
- Mae pyrth i mewn i'r dref yn wael ac nid oes gwir ymdeimlad o gyrraedd
- Mae ardal ganolog y 'sgwâr' o dan oruchafiaeth traffig gan ei fod ar yr A40
- Cysylltiadau teithio llesol i'r de yn cael eu peryglu'n ddrwg gan y traffig ar y bont gul dan reolaeth goleuadau: amgylchedd anghyfeillgar i gerddwyr a beicwyr
- Diffyg tai fforddiadwy yn y sector gwerthu preifat ar werth a landlordiaid cymdeithasol
- Dim llecyn cyhoeddus trefol canolog go iawn i gyfarfod, eistedd a threulio amser

# Dadansoddiad SWOT - Lle

## Cyfleoedd



- Cynllun rheoli newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i ddull cyfannol o gynllunio lleoedd
- Prosiect digidol "trefi clyfar" a fydd yn helpu i reoli lleoedd
- Adeiladu ar brofiad a hunaniaeth canol y dref sy'n sicrhau amrywiaeth a chynaliadwyedd
- Gwella amgylchedd cerddwyr a beicwyr
- Integreiddio'r A40 yn well
- Creu pyrth gwell ac ymdeimlad o gyrraedd
- Creu mwy o le i stopio, eistedd a threulio amser
- Creu gwell cysylltiadau teithio llesol i'r de, ar draws yr afon ac osgoi'r bont bresennol
- Datblygu strategaeth parcio ledled y dref
- Darparu cyfleoedd i fusnesau ehangu eu masnach i'r stryd
- Ystyried tir llwyd ac adeiladau a danddefnyddir ar gyfer cyfleoedd datblygu yn y dyfodol

## Bygythiadau



- Bygythiad newid hinsawdd i ymdeimlad Crughywel fel lle, ei dreftadaeth a'r amgylchedd adeiledig ehangach
- Mae'r perygl o lifogydd o Afon Wysg yn sylweddol yn ardaloedd isaf tref Crughywel
- Diffyg tai fforddiadwy yn gwthio'r boblogaeth iau allan
- Mae'r broblem ffosffadau bresennol yn effeithio ar y dref, gan amharu ar gyfleoedd am ddatblygiadau newydd a'r angen am dai fforddiadwy newydd
- Gall y ffaith fod yr A40 yn gefnffordd gyfyngu ar ymyriadau i wella profiad cerddwyr a beicwyr

# Yr hyn a Ddywedodd Pobl – Angen

# Yr Hyn a Ddywedodd Pobl

Yn ystod diwedd mis Medi a mis Hydref 2023, cynhaliodd tîm y Cynllun Lle gam cyntaf ei ymgynghori â chymuned y dref, gan geisio deall yr heriau a'r cyfleoedd.

## Sut wnaethon ni hyrwyddo

- Postio gwybodaeth at dros 1200 o gartrefi a busnesau ar ffyrdd o gymryd rhan
- E-bostio dros 100 o ddeiliaid tai, busnesau a grwpiau cofrestredig
- Gosod posteri mewn canolfannau cymunedol a busnesau canol y dref
- Postio ar gyfryngau cymdeithasol – Facebook, Twitter, Linkedin lleol
- Darparu gwefan **www.crickhowellplaceplan.org**

## Sut wnaethon ni ymgynghori

- Anfonwyd cerdyn post at bob cartref a busnes i bobl ei lenwi a'i ollwng yn ein hymgynghoriad wyneb yn wyneb neu yng Nghanolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel
- Darparwyd holiadur cymunedol digidol a phapur gyda blwch post yng Nghanolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel
- Digwyddiad ymgynghori deuddydd yn Neuadd Clarence ar 29 a 30 Medi 2023
- Arddangosfa yng Nghanolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel o'r ail i'r 16eg o Hydref 2023


## Pwy a gymerodd ran

- Daeth 167 o bobl i ddigwyddiad Neuadd Clarence dros y 29ain a'r 30ain o Fedi (8% o boblogaeth y dref)
- 340 o ymatebion i arolwg cymunedol (16.2% o boblogaeth y dref)
- Cardiau post: 32 yn y digwyddiad; 31 wedi'u cyflwyno yng Nghanolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel; 5 e-bost ac 1 llythyr a gyflwynwyd â llaw

## Pa gwestiynau wnaethon ni eu gofyn?

- Sut ydych chi'n graddio ansawdd bywyd cymunedol yng Nghrughywel?
- Sut ydych chi'n graddio ansawdd natur a'r amgylchedd yng Nghrughywel?
- Beth yw'r tair prif her sy'n wynebu Crughywel?
- Rhestrwch eich 3 prif flaenoriaeth y mae'n rhaid i'r Cynllun Lle ymdrin â nhw wrth fynd i'r afael â'n heriau amgylcheddol a chymunedol
- Mewn un gair beth sy'n crynhoi Crughywel fel lle ar hyn o bryd?

## Pwy a gwblhaodd yr holiadur?



# Yr Hyn a Ddywedodd Pobl Wrthym


## Adroddiad yr Ymgynghoriad

Gellir gweld adroddiad llawn yr ymgynghoriad ar https://www.crickhowellplaceplan.org/consultation


## Pa un gair sy'n crynhoi Crughywel heddiw?




## Sut ydych chi'n graddio ansawdd bywyd cymunedol yng Nghrughywel? (1 yn wael – 5 yn dda iawn)




## Sut ydych chi'n graddio ansawdd natur a'r amgylchedd yng Nghrughywel? (1 yn wael – 5 yn dda iawn)



# Yr Hyn a Ddywedodd Pobl Wrthym

## Heriau

- Mae angen inni warchod y Stryd Fawr unigryw
- Mwy o blannu coed nag o dorri coed
- Gwell palmentydd i bob oedran a gallu
- Dim biniau ailgylchu cyhoeddus
- Parcio yw un o'r problemau allweddol
- Agor cysylltiadau megis o dir yr ysgol i Ddolydd Bullpit
- Swn ar yr A40 oherwydd tyllau ac wyneb gwael y ffordd
- Colled amlwg yng nghynefinoedd yr afon yn y 50 mlynedd ddiwethaf
- Dim cyfleusterau ar gyfer ailgylchu eitemau trydanol a nwyddau gwyn bach – taith o 40 milltir i Aberhonddu
- Mae barn ranedig ar blanhigion a pharcio ar y stryd
- Mae arnom angen seilwaith cymdeithasol i gefnogi unrhyw dai newydd
- Angen clirio draeniau ar hyd a lled y dref
- Mae angen deall argyfwng natur Crughywel
- Pryder am ddarpariaeth meddygon teulu a deintyddiol yn ogystal ag Ysbyty Nevill Hall
- Nid yw'r A40 yn ddiogel i gerdded a beicio
- Ansawdd y dŵr yn Afon Wysg yn wael
- Ansawdd aer yn wael oherwydd maint a math y traffig
- Mae arnom angen mwy o dai fforddiadwy
- Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus – amserau, amledd ac integreiddio

## Syniadau

- Mwy o leoedd cymdeithasol ar y Stryd Fawr nad yw'n eiddo i fusnesau
- Mae arnom angen lleoedd parcio am 1 awr am ddim
- Defnyddio Neuadd y Farchnad fel marchnad bwyd lleol a marchnad ffermwyr
- Offer campfa awyr agored yn y parciau
- Lle parcio'r tu allan i'r dref – cerdded neu fws wennol
- Ymchwilio i ynni adnewyddadwy ar raddfa fach
- Maes parcio arhosiad hir ac ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Cymhelliant i ddefnyddio blychau bwyd lleol
- Llwyberau diogel i'r ysgol a gwell llwybrau i gerdded a beicio
- Cefnogi Neuadd Clarence gyda mwy o sioeau byw
- Teithio llesol rhwng Crughywel, Gilwern a'r Fenni
- Plannu mwy o flodau gwyllt i gefnogi adar a gwenyn
- Economi gylchol – troi gwastraff bwyd yn gompost i
- helpu tyfwyr i gynhyrchu – gwerthu i ailgylchu
- Cynllun trafnidiaeth gyhoeddus i gymunedau gwledig
- Mwy o ddehongli bywyd gwyllt a byd natur
- Annog pobl ifanc yn gymryd rhan mewn garddwriaeth
- Datrys darpariaeth ailgylchu
- Creu gwregys gwyrdd gwirioneddol o goetiroedd
- Cynhyrchu storfa batris adnewyddadwy
- Mae arnom angen mwy o le parcio oddi ar y stryd
- Annog garddwriaeth ar raddfa fach yn y dref ac o'i chwmpas
- Datblygu cynllun bws gwennol parcio a theithio

## Yr Hyn a Ddywedodd Pobl Wrthym

### Crynodeb o'r prif heriau a chyfleoedd

- **Yr A40 yng Nghrughywel - traffig, ansawdd y ffordd, croesfannau, palmentydd a'r berthynas â'r Stryd Fawr**
- **RHWYDWAITH EHANGACH PRIFFYRDD Y DREF – tarfu ar strydoedd tawel, cyflymder ac ansawdd yr amgylchedd i drigolion lleol**
- **Y STRYD FAWR - barn ranedig ar blanhigion a pharcio, diffyg llecynnau dinesig a chyfleusterau cymdeithasol a lle i dreulio amser**
- **PARCIO - ar ac oddi ar y stryd, cyflenwad, rheoli, prisiau**
- **TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS - cymunedau gwledig, canfod ateb lleol**
- **TAI - yr angen am gyflenwad ychwanegol o gartrefi deiliadaeth gymysg sy'n addas i anghenion cylch oes**
- **IECHYD A SEILWAITH CYMDEITHASOL - capasiti, hygyrchedd a phryderon dros golli gwasanaethau hanfodol**
- **POBL IFANC - lle i gyfarfod a chyfleoedd am waith**
- **CHWARAE AC AMWYNDER - ansawdd, hygyrchedd a rheolaeth ar draws y dref**
- **ASEDAU/LLEOEDD A DANDDEFNYDDIR - e.e. y man cyhoeddus o amgylch y llyfrgell**
- **CYSYLLTEDD - i mewn ac allan i gefn gwlad ac ar draws y dref**
- **PRYDERON YNGHYLCH AFON WYSG - ansawdd dŵr, perygl llifogydd, gwerth amwynderau**
- **MATERION DINESIG - glanhau, baw cŵn, ailgylchu, seddi a mwy**
- **LLAI O WIRFODDOLI - rôl Cynllun Llle mewn ennyn diddordeb**
- **GWRANDO A CHANOLBWYNTIO AR WEITHREDU - rôl y Cynghorau Tref a Sir, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau eraill**










# Themâu sy'n Dod i'r Amlwg

## Themâu sy'n Dod i'r Amlwg

Daeth nifer o themâu allweddol allan o'n ymgynghoriad y bu angen i'r Cynllun Lle eu hystyried wrth iddo symud at ddatblygu ei weledigaeth a set o gynigion. Y rhain yw:









- Yr A40
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cyfathrebu a gweithio gyda'n gilydd
- Cydgysylltu Newid Hinsawdd
- Cynhyrchu ynni a bwyd yn lleol
- Y Stryd Fawr
- Pobl Ifanc
- Tai

## Themâu sy'n Dod i'r Amlwg





# Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion

# Gweledigaeth

## Ein Gweledigaeth, 2039


Mae pawb ohonom yn ffodus iawn o fyw neu weithio yng Nghrughywel, sydd â threftadaeth gyfoethog, cymeriad adeiledig a lleoliad gwledig. Erbyn 2039 bydd Crughywel yn ganolfan gynaliadwy lle gall pob un ohonom gael mynediad at siopau a gwasanaethau ar droed neu ar hyd un o'r nifer o lwybrau beicio yn y dref. Mae gennym stryd fawr ffyniannus a phrysur gyda busnesau annibynnol penodol sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd y dref a'i thrigolion.

Bydd y rheini sy'n byw mewn cymunedau cyfagos neu sy'n ymweld â'r dref hefyd yn gallu mwynhau ei chyfleusterau, ac mae'n dal i fod yn lle cyfleus i fynd iddo mewn car. Bydd ein plant a'n hwyrion, a fydd wedi cael eu haddysgu yn ein hysgol gynradd a'n hysgol uwchradd ardderchog, yn cael cyfle i aros yn y lle y maent wedi tyfu i fyny gyda darpariaeth o dai fforddiadwy, carbon isel, effeithlon eu defnydd o ynni. Byddant yn gallu gweithio yn y dref neu'n agos ati, gyda system drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd a fydd yn lleihau eu dibyniaeth ar y car.

Bydd y rhai sy'n dymuno aros yng Nghrughywel pan fyddant yn hŷn yn gallu gwneud hynny. Byddwn i gyd yn gallu mwynhau'r bywyd gwyllt toreithiog yn afon lân Wysg ac yn y mannau gwyrdd amrywiol yn y dref sy'n meithrin bioamrywiaeth. Mae'r dref wedi lleihau'r perygl o lifogydd drwy ddefnyddio mathau naturiol a chynaliadwy o ddraenio. Mae gennym fynediad at amrywiaeth helaeth o weithgareddau hamdden a diwylliannol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr lleol. Mae Crughywel yn ffynnu ac yn flaengar ac rydym yn teimlo ein bod yn cael ein gwerthfawrogi a'n parchu fel aelodau o'r gymuned hon.

## Amcanion

- Cefnogi ymdrechion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gyrraedd sero net o allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy'r holl ardal erbyn 2035.
- Sicrhau bod gweithgareddau yn cefnogi adnoddau dŵr glân, diogel a chydnerth yn y dref a Dalgylch Afon Wysg
- Diogelu a chysylltu natur a bioamrywiaeth o fewn llecynnau a choridorau'r dref a chysylltu â'r ardal wledig gyfagos
- Gwarchod a dathlu cryfderau treftadaeth Crughywel sy'n cefnogi gwelliannau addas, dylunio da a datblygu sy'n atebu'r ymdeimlad o le
- Annog poblogaeth gytbwys o ran oedran a gefnogir gan gyflogaeth, gwasanaethau a thrafnidiaeth lleol
- Cynnal cymeriad, treftadaeth a hunaniaeth Crughywel sy'n apelio at drigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd
- Cydbwyso rhwng buddiannau economaidd twristiaeth â'r angen i gynnal cymuned ffyniannus o breswylwyr parhaol a siopau annibynnol



# Gweledigaeth

## Gweledigaeth

Lle cydnerth sy’n defnyddio’i dir mewn ffordd gynaliadwy ac arloesol

Cydbwyso anghenion trigolion gan barchu rhan twristiaeth a’r economi ymwelwyr


Lle o lesiant i bawb sy’n hygyrch ac yn gynhwysol i bawb

Brwdfrydedd angerddol gan y gymuned mewn gweithio gyda’i gilydd a chael pethau wedi eu gwneud

## Cefnogi’r Bannau

Mae’r Cynllun yn cofleidio’r dull Cenhadaeth a ddisgrifir yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2023-2028. Mae hwn yn ceisio mynegi’r angen allweddol i ganolbwyntio ein holl ymdrechion os ydym am wireddu’r newidiadau hyn.

Mae’r cenadaethau’n canolbwyntio ar yr heriau mawr i’r Parc. Mae’n edrych ar ei hinsawdd, ei amgylcheddau dŵr, ei amgylcheddau naturiol, ei bobl a’i leoedd (sef y pwynt lle daw’r cyfan ynghyd). Caiff pob un o’r cenadaethau hyn eu cynnal gan brif amcanion cyffredinol, ac rydym yn mynegi ymhellach ein huchelgais ar eu cyfer fel cyfres o ddatganiadau o ganlyniad.




- **HINSAWDD** – Cyrraedd sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog erbyn 2035.
- **DWR** - Adnoddau ac amgylcheddau dŵr glân, diogel, gwydn a digonol erbyn 2030.
- **NATUR** – Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn natur-bositif erbyn 2030.
- **POBL** – Byw, gweithio ac ymweld yn ddiogel, yn deg ac yn gynaliadwy.
- **LLE** – Lleoedd hardd, ffyniannus a chynaliadwy, sy’n cael eu dathlu am eu treftadaeth naturiol, adeiledig a diwylliannol, yn awr ac am byth.

# Cynigion y Cynllun Lle

# Cynigion - Hinsawdd

Cyrraedd sero net nwyon tŷ gwydr ledled Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog erbyn 2035

**A1** Mae'r symbolau hyn cyfeirio at y cod unigryw ar gyfer pob un o brosiectau'r Cynllun Lle. Gellir gweld y ffrâm amser ar gyfer pob prosiect wedyn yn yr adran rhaglenni

**C1** **CEFNOGI EIN BWYD 1200** wrth adeiladu system ffermio cydnerth sydd:

- ar raddfa fach, yn hynod gynhyrchiol a hyfyw yn fasnachol
- yn helpu i ddarparu diogelwch bwyd i Gymru
- yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n dlawd o ran asedau, yn enwedig ein pobl ifanc, gael mynediad ar dir a dechrau menter ffermio adfywiol, ac sy'n
- hyrwyddo cymuned drwy fasnachu lleol a chydberchnogaeth gymunedol o'n tirwedd – "economi sylfaenol".

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- datblygu marchnad reolaidd o fewn Neuadd y Farchnad a'r Stryd Fawr ehangach
- cefnogi a datblygu gerddi marchnad a lleoedd tyfu o fewn y dref a gerllaw iddi
- defnyddio trafnidiaeth gymunedol i gasglu cynnyrch gan dyddynwyr, deiliaid rhandiroedd a'u cyfuno'n gynlluniau blychau bwyd lleol.

**C2** **RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AR AFON WYSG**, sydd, fel prif afon, yn gyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae cyfrifoldebau rheoli perygl llifogydd am ddwr wyneb a chyrsiau dwr cyffredin megis draeniau storm yn gorwedd gyda Chyngor Sir Powys fel yr awdurdod llifogydd arweiniol lleol.

Oherwydd amlder llifogydd yng nghyffiniau Stryd y Bont, mae achos cryf dros adolygu'r amddiffynfeydd llifogydd sydd ar waith, gyda'r bwriad o ddatblygu achos busnes dros gyllid ar gyfer eu huwchraddio gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlwg o'r adroddiad ymgynghori fod pobl leol yn gwerthfawrogi cymeriad a hynodrwydd y dref yn fawr. Mae ardal gadwraeth y dref yn fecanwaith pwysig ar gyfer gwella a diogelu'r nodweddion hyn. Mae Stryd y Bont yn rhan allweddol o'r ardal gadwraeth. Oni bai bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu dyfodol yr adeiladau hyn, mae'r risgiau i ddyfodol y rhan bwysig hon o'r dref yn sylweddol, gyda'r perygl o golli busnes pwysig, nifer o anheddau ac









# Cynigion - Dŵr

elfen sylweddol o'r hyn sy'n gwneud y dref yn gyrchfan ddeniadol i ymwelwyr. Mae Map Llifogydd Cymru ar gyfer Cynllunio hefyd yn nodi ystâd ddiwydiannol Elvicta oddi ar yr A40 i'r dwyrain o'r dref fel un sydd o fewn ardal obperygl llifogydd. Mae'r ystâd hon angen strategaeth gwydnwch eiddo rhag llifogydd i sicrhau y gellir cynnal y busnesau hyn a'r swyddi maent yn eu cefnogi fel elfen allweddol o economi'r dref.

Dylai'r cynnig hwn fod yn rhan o Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Cyngor Sir Powys, sy'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Fel yn achos uwchraddio amddiffynfeydd yr afon, byddai'r achos busnes dros gais am gyllid grant yn cael ei gryfhau wrth ei gynnwys fel cynnig o fewn y Cynllun Lle hwn.

Cynigion penodol i gynnwys:

- Cyflwyno cynlluniau draenio trefol cynaliadwy o fewn Standard Street a'r Stryd Fawr i leihau dŵr ffo stormydd
- Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i asesu lle y gellir gwneud gwelliannau, ym mwâu'r bont ac o'u hamgylch nad yw'n niweidiol i fioamrywiaeth yr afon ond sy'n lleihau graddau'r cronni dŵr sy'n digwydd pan fo llifogydd ar eu hanterth
- Tynnu malurion o fwâu pont ar ôl digwyddiadau dŵr uchel





Adnoddau ac amgylcheddau dŵr glân, diogel, gwydn a digonol erbyn 2030.

**W1** **ANNOG CYFOETH NATURIOL CYMRU I BARHAU I FONITRO ANSAWDD DŴR** yn Afon Wysg a chefnogi gwaith grwpiau eraill sy'n samplu'r afon.

**W2** **SICRHAU GWERTH AMWYNDER AFON WYSG** yng Nghrughywel i gefnogi llesiant trigolion lleol a'r economi ymwelwyr ehangach.

**W3** **LLE BO'N YMARFEROL, CYFLWYNO CYNLLUNIAU DRAENIO TREFOL CYNALIADWY** sy'n gallu hidlo llygryddion petro-garbon (defnyddio Biosianelau) a hefyd gerddi dŵr glaw i helpu gyda chasglu dŵr glaw er enghraifft.

**W4** **HYRWYDDO PECYNNAU CYNAEAFU DŴR GLAW O FEWN Y GYMUNED** fel ffordd ecogyfeillgar o gasglu ac ailddefnyddio dŵr glaw. Gellir ei ddefnyddio at ddibenion awyr agored yn unig fel dyfrhau gardd neu rydych yn buddsoddi mewn systemau sy'n defnyddio'r dŵr y tu mewn ar gyfer golchi dillad a thoiled. Fflysio. Gweithio gyda Dŵr Cymru a Chyngor Sir Powys i gyflawni cynlluniau cadarnhaol i reoli dŵr wyneb a hyrwyddo a darparu pecynnau cynaeafu dŵr glaw i drigolion lleol.





# Cynigion - Natur

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog natur-bositif erbyn 2030.

**CYSYLLTU LLECYNNAU YN Y DREF** a all warchod a chefnogi natur trwy lwybrau hygyrch sy'n helpu darpariaeth iechyd ataliol gan gynnwys gwella mynediad at lecynnau gwyrdd naturiol.

**N1** Darparu mesurau addysgu a dehongli ar werthfawrogi natur o fewn y dref a gydgynhyrchir gan y gymuned a phrosiect ysgolion lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.






**N2** Gwella mynediad i lecynnau gwyrdd a chynyddu'r defnydd ohonynt trwy well llwybrau a chysylltiadau ag ardaloedd cyfagos.

**N3** Gwella'r safle o gwmpas y Llyfrgell, gyda chyfleoedd i greu llecyn iard drefol.





# Cynigion - Natur

**N4** Annog datblygu mannau tyfu cymunedol e.e. Peak Cymru



**N5** Amddiffyn yr ardal wledig o gwmpas y dref o ran coetir naturiol, glaswelltiroedd a thirweddau eraill a rheoli gwaredu rhywogaethau ymledol anfrodorol.





**N6** Gwella mynediad i barc y castell, y llwybrau drwyddo a'r cyfleusterau o'u fewn a chefnogi'r rosiect "Pethau Gwyrdd Bach."



**N7** Cefnogi'r gymuned leol ar y bygythiad i fioamrywiaeth gan rywogaethau ymledol anfrodorol, gan wella eu harferion bioddiogelwch i atal goresgyniadau newydd; byddai hyn yn cynnwys sylwi, cofnodi a rheoli'n gynnar cyn iddynt fod mewn perygl o ddod yn broblemau hirdymor.

**N8** Cyflwyno gerddi glaw o fewn strydoedd i helpu i reoli dŵr ffo wyneb, lleihau llifogydd a lleihau llygryddion petro-carbon.



**N9** Sicrhau bod digon o gyfleoedd yn cael eu darparu ar gyfer mannau tyfu cymunedol, gan gynnwys cynnal y ddarpariaeth o randiroedd i ateb y galw.





**N10** Parc y Frenhines Elizabeth II - Gwella'r maes chwarae, y pyst pêl-droed a'r ardal ymarfer corff cŵn ac offer ymarfer corff awyr agored.



**N11** Gwneud gwell defnydd o fannau gwyrdd llai i barciau poced bywiog gan gynnwys plannu ar gyfer gwenyn peillio.

# Cynigion - Pobl

Byw, gweithio ac ymweld yn ddiogel, yn deg ac yn gynaliadwy.

## TAI

PE1

**CANFOD FFYRDD O DDIWALLU ANGHENION TAI** drwy:

- Safleoedd tir llwyd posibl megis cyfnewidfa BT
- Y Cynllun Datblygu Lleol newydd i nodi safleoedd ymgeiswyr ar gyfer tai newydd sy'n diwallu angen ac yn gweithio o fewn lleoliad y dref a chynlluniau cynaliadwy
- Cyfleoedd i isrannu tai mwy
- Deall cylch bywyd tai yng Nghrughywel
- Dyraniadau tai y tu allan i ganol y dref, rôl teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus e.e. safle Cwrt Y Gollen

Gweler yr adran ar ystyriaethau CDLl yn y dyfodol.

## BWYD

PE2

Cefnogi datblygiad tyfu lleol a mentrau cadwyni cyflenwi a thyfu lleol fel y **PROSIECT BWYD 1200**. Mae'r gweithgareddau penodol yn cynnwys

- Adnabod tir cynhyrchiol sydd dros ben
- Deall y gallu i baratoi safleoedd, tyfu, hyfforddi, dosbarthu (cylch)
- Cysylltu â'r farchnad gyfanwerthu
- Cysylltu â rhwydweithiau banciau bwyd
- Datblygu ffyrdd cynhwysol i bobl gasglu cynnyrch a dyfir yn lleol yng nghanol y dref ac mewn cymdogaethau
- Cysylltu â chynlluniau trafnidiaeth cymunedol sy'n cysylltu cyflenwyr â chanolfannau lleol a defnyddwyr
- Datblygu cyrsiau byw'n iach a choginio law yn llaw â'r elfen dyfu
- Datblygu marchnad reolaidd o fewn Neuadd y Farchnad a'r Stryd Fawr ehangach
- Cefnogi a datblygu gerddi'r farchnad a lle tyfu o fewn y dref a gerllaw iddi

## EGNI

PE3

**MAE DATBLYGU RHWYDWAITH YNNI ADNEWYDDADWY LLEOL** sy'n gwella mynediad at ynni fforddiadwy i wresogi, goleuo a choginio yn cael ei gydnabod fel elfen hanfodol o lesiant. Cymoedd Gwyrdd Llangatwg – partner arweiniol a sefydliadau lleol eraill. Angen canfod a datblygu safleoedd sy'n bodloni meini prawf.

Mae Cymoedd Gwyrdd Llangatwg yn datblygu cynllun i ardal Crughywel gael ei bweru gan ynni adnewyddadwy gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau ar gyfer cynhyrchu drwy gydol y flwyddyn, ynghyd â storio hirdymor a thymor byr. Bydd y seilwaith yn cael ei ddosbarthu ymhlith y cymunedau ac, fel rhan o'r cynllun mwy hwn, safleoedd posibl yng Nghrughywel a allai fod yn addas ar gyfer cynhyrchu a storio cysylltiedig.

## IECHYD

PE4

- Cefnogi a hyrwyddo gwasanaethau iechyd lleol drwy eu rhaglenni ymwybyddiaeth a'u cyfeirio at ddefnyddio prosiectau gwyrddu/tyfu sy'n helpu presgripsiynu cymdeithasol a ffyrdd eraill llesol o fyw
- Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus ar wasanaethau bysiau sy'n cysylltu â meddygon teulu, deintyddiaeth a darparwyr iechyd eraill






# Cynigion - Pobl

## INCWM (GWEITHGARWCH ECONOMAIDD)

PE5

- **ANNOG CYFLOGAETH O ANSAWDD UCHEL** - Hyrwyddo datblygiad lleoedd ar gyfer gweithdai bach yn y dref, yn enwedig i gefnogi'r diwydiant celfyddydau creadigol. Datblygu unedau byw/gweithio sydd wedi'u lleoli'n briodol i ddiwallu anghenion tai a chyflogaeth lleol. Cefnogi twf swyddi ar Elvicta a safleoedd cyfagos sydd wedi'u cysylltu'n dda â'r dref e.e. Cwrt Y Gollen.

PE6

- Archwilio dichonoldeb mannau cydweithio yng nghanol y dref (e.e. llyfrgell) sy'n tynnu gweithgarwch i mewn ac yn arwain at dwf mewn busnesau.
- Cefnogi'r ddarpariaeth o fwndel cydnerthedd llifogydd yn ystad Elvicta sy'n diogelu cyflogaeth leol.

PE7

## LLAIS GWLEIDYDDOL

- Datblygu ffyrdd o weithio drwy'r broses Cynllun Lle sy'n hyrwyddo cyfathrebu ehangach, rhannu gwybodaeth a lle i gefnogi gweithredu syniadau a mentrau.
- Diweddaru gwefan y Cyngor Tref fel y gall fod yn fwy ymarferol ar gyfer **CYFATHREBU**, negeseuon, diweddariadau i'r Cynllun Lle ac integreiddio â'r wefan  www.crickhowellplaceplan.org.
- Datblygu dull partneriaeth yn y dref, yn benodol fforwm tref sy'n annog cydweithio a chydgyflawni







## GWASANAETHAU LLEOL

PE8

Gweithio gyda chyrff perthnasol i sicrhau bod Crughywel **YN CYNNAL EI DDARPARIAETH O WASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU HANFODOL** sydd eu hangen ar breswylwyr ar gyfer eu bywydau bob dydd e.e. gwasanaethau iechyd a llesiant, cymorth cymunedol, canolfannau cymdeithasol, toiledau cyhoeddus, llyfrgell, siopau a gwasanaethau, ymhlith asedau eraill sy'n seiliedig ar bobl. Mae hyn hefyd yn cynnwys y potensial i adennill gwasanaethau a gollwyd yn y gorffennol, e.e. annog canolbwynt bancio.

PE9

Sicrhau bod gan gymuned ehangach y dref a'r ardal wledig gyfagos fynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol trwy rwydwaith o lwybrau cerdded hygyrch i ganol y dref, rhwydweithiau teithio llesol ehangach, gwasanaeth bysiau lleol gwell, cefnogaeth barhaus i Dial-A-Ride, cyflenwad lleol o leoedd parcio a threialu mentrau eraill (rhannu ceir, clybiau ceir a chynlluniau e-feiciau).

PE10

## TRAFNIDIAETH

**ANNOG DATBLYGU A DARPARU TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS** sy'n cysylltu cymunedau gwledig yn ôl ac ymlaen i Grughywel ac â chysylltiad trafnidiaeth strategol yn Y Fenni ac i'r canolbarth. Cefnogi Cyngor Cymuned Llangatwg gyda'r astudiaeth ddichonoldeb i drafnidiaeth gymunedol neu fodel ymatebol i alw fel Fflecsi. Mae angen i wasanaeth bws lleol fod yn rheolaidd, yn ystod y dydd a gyda'r nos, a bod â chyfleusterau ar gyfer cludo nwyddau bach, beiciau ac anghenion eraill. Mae cynlluniau trafnidiaeth eraill sydd angen eu harchwilio yn cynnwys rhannu ceir, clybiau ceir, e-feiciau.

Mae angen archwilio datblygiad cysylltiadau beicio pellter hir rhwng Crughywel a'r Fenni, yn ddelfrydol oddi ar gefnffordd yr A40, yn ogystal â chysylltiadau â chymunedau cyfagos eraill fel Gilwern, Llangynidr a phentrefi eraill.

# Cynigion - Lle


Lleoedd hardd, ffyniannus a chynaliadwy, sy'n cael eu dathlu am eu treftadaeth naturiol, adeiledig a diwylliannol, yn awr ac am byth.

PL1

**MABWYSIADU DULL SEILIEDIG AR LE O YMDRIN Â CHORIDOR YR A40**

sy'n troi ffordd yn stryd drwy dref farchnad llawn cymeriad ym Mhowys

- Cysylltiadau teithio llesol i safle Cwrt Y Gollen
- Datblygu porth o'r de-ddwyrain – Elvicta – porth allanol, pontio mewn cyflymder, planhigion a nodweddion ffisegol
- Trin y brif gerbytffordd a chyffyrdd ochr
- Prif stryd canol y dref (gweler cynigion y Stryd Fawr)
  - Nodweddion stryd – coed, gerddi dŵr glaw, defnydd o Ddraenio Trefol Cynaliadwy
  - Ail-leoli croesfannau cerddwyr
  - Cyffordd yr A40/Llanbedr
  - Nodwedd porth bach
  - Gwell ardal groesi i gerddwyr
  - Darparu seddau a chelfi stryd cysylltiedig mewn lleoliadau allweddol yng nghanol y dref
  - Defnyddio deunyddiau palmantu naturiol, treftadaeth, lle bo'n bosibl



# Cynigion - Lle

## PL2 Cyffordd Ffordd Llanbedr



- Cyflwyno tirlunio a gerddi glaw i greu porth bach ar hyd yr A40
- Cyfle am seddau neu nodwedd celf o fewn y llecyn
- Mae llwyfan dyrchedig yn helpu i arafu cerbydau ac yn gwneud croesi'n haws
- Rhwystro parcio ar y stryd ar waelod Ffordd Llanbedr i wella diogelwch ar y ffyrdd.

## PL3 A40/Stryd Beaufort



- Llwybr teithio llesol rhwng canol y dref a Cwrt-y-Gollen
- Mae cyffordd symlach, llwyfan dyrchafedig a thirlunio yn helpu i greu porth bach drwy'r dref
- Gwell cyfleusterau croesi at y ganolfan feddygol
- Mynediad i gerbydau 'trigolion yn unig' / arwyddion i anghymell camddefnyddio'r Stryd Fawr i fyrhau teithiau

## PL4 Porth Dwyreiniol



- Mae llwyfan dyrchafedig o amgylch cyffordd Elvicta yn helpu i arafu traffig ac yn gadael i bobl wybod eu bod yn mynd i mewn i'r dref
- Cynnal safleoedd bws a gwell cyfleusterau croesi i hwyluso mynediad i Barc Busnes Elvicta
- Cyfle i dirlunio, arwyddion a chelf gyhoeddus greu porth i Grughywel


# Cynigion - Lle

**PL5**


**GWELLA LLECYNNAU DINESIG STRYD FAWR CRUGHYWEL**

- Y Stryd Fawr – cydbwyso lle i barcio a lle i dreulio amser
- Cyfleoedd i wella lled y palmant
- Creu mwy o le cyhoeddus ger y ffynnon
- Cysylltu lleoliad a defnydd Neuadd y Farchnad â'r stryd





1. Y ffynnon i barhau yng nghraidd canol y dref
2. Neilltuo mwy o le i gerddwyr ac ar gyfer digwyddiadau
3. Ardal ganolog ar gyfer seddau
4. Llecyn canolog gyda llwyfan dyrchafedig a phwyntiau croesi ychwanegol i helpu cerddwyr i groesi
5. Cysylltiadau croesi i Silver Lane i wella mynediad at yr Eglwys, yr Ysgol Uwchradd a'r Ganolfan Chwaraeon
6. Mwy o dirlunio ac o lecynnau ar gyfer y cyhoedd
7. Gwell croesfan yn cysylltu â'r parc
8. Lle a rennir fel porth deheuol
9. Parhau â lleoedd i barcio y tu allan i Latham House



# Cynigion - Lle

Prif nod y cynigion yn ymwneud â chanol y dref oedd creu amgylchedd mwy diogel, mwy cyfeillgar i gerddwyr gyda gwell dewisiadau o leoedd croesi. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a gododd trigolion yn y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus.

Er mwyn sicrhau amgylchedd mwy diogel a chyfeillgar i gerddwyr, mae'r tîm dylunio wedi edrych ar gulhau cyffordd y stryd fawr/A40 fel bod pellter byrrach a haws i'w groesi a symud y gyffordd i ffwrdd o'r pwyntiau croesi. Mae llwyfannau dyrchafedig wedi cael eu defnyddio hefyd i helpu i arafu cerbydau a chreu mannau croesi gwastad i gerddwyr.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, cynigiwyd bod Ffynnon Goffa Lewis yn cael ei symud ychydig (ychydig fetrau) i ganiatáu i'r gyffordd gael ei lleoli oddi wrth y mannau croesi a manteisio i'r eithaf ar hynny o le cyhoeddus sydd ar gael i gerddwyr. Dangosir hyn yn opsiynau 1 a 2.

Ymgynghorwyd ynghylch yr opsiynau hyn drwy ein hymgynghoriad wyneb yn wyneb a'n harolwg cymunedol. Gofynnodd 75% (61 mewn niferoedd) am gadw'r ffynnon yn ei safle presennol.

- Symud y Ffynnon i'r Gogledd o'r Sgwâr – 14% (11 o bobl)
- Symud Ffynnon i'r De o'r Sgwâr – 11% (9 o bobl)
- Cadw'r Ffynnon yn ei safle presennol – 75% (61 o bobl).

Oherwydd barn gref y cyhoedd, bydd unrhyw newidiadau i ganol y dref yn cael eu cynllunio ar sail y dybiaeth fod y ffynnon yn aros yn ei lle.

**Opsiwn 1**
**Symud y Ffynnon 5m i'r gogledd**




- Mae'r ffynnon wedi'i lleoli o fewn llecyn cyhoeddus y gellir ei defnyddio hefyd ar gyfer seddau a digwyddiadau
- Mae'r ffynnon yn dal i sefyll mewn lleoliad amlwg, sydd i'w weld o'r A40 a'r Stryd Fawr
- Mae cyffordd gul a llwyfan dyrchafedig yn ei gwneud yn haws i groesi
- Y gyffordd wedi cael ei symud ymhellach i ffwrdd o fannau croesi
- Y lle o dan lai o oruchafiaeth ceir
- Manteisio i'r eithaf ar le i gerddwyr ar ochr heulog y stryd
- Cyfle am dirlunio a gerddi glaw

**Opsiwn 2**
**Symud y Ffynnon 3m i'r de**




- Mae'r ffynnon wedi'i lleoli o fewn llecyn cyhoeddus y gellir ei defnyddio hefyd ar gyfer seddau a digwyddiadau
- Mae'r ffynnon yn dal i sefyll mewn lleoliad amlwg, sydd i'w weld o'r A40 a'r Stryd Fawr
- Mae cyffordd gul a llwyfan dyrchafedig yn ei gwneud yn haws i groesi
- Y gyffordd yn nes at y pwynt croesi
- Y lle o dan lai o oruchafiaeth ceir
- Y prif le i gerddwyr ar ochr gysgodol y stryd
- Cyfle am dirlunio a gerddi glaw

# Cynigion - Lle

## PL6 Maes Parcio Arhosiad hir

Bydd gwelliannau i'r Maes Parcio Arhosiad Hir, y tu ôl i Ganolfan Adnoddau a Gwybodaeth Crughywel yn gweld cynnydd yn niferoedd y lleoedd parcio, mwy o dirlunio, gwell arwyddion cyfeirio, peiriannau talu ac arddangos newydd a gwell llecyn i'r cyhoedd.

Yn 2023, cafodd Cyngor Sir Powys wared ar yr opsiwn parcio am 1 awr o brif faes parcio'r dref. Mae hyn wedi effeithio ar barcio tymor byr yn enwedig. Cynhaliwyd adolygiad maes parcio dilynol a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn 2024 gan alluogi'r Cyngor Tref i weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys i ystyried lleoliad, hyd a chost parcio yng nghanol y dref.



1. Gwell cyswllt llwybr rhwng y Ganolfan Adnoddau a Gwybodaeth a Standard Street
2. Gwell llecyn cyhoeddus wrth y fynedfa i'r Ganolfan Adnoddau a Gwybodaeth
3. Gwell cynllun yn cynyddu nifer y lleoedd i tua 2 le arall gyda chyfleoedd i gynnwys mwy pe defnyddid darn o'r rhandir.
4. Mwy o dirlunio drwy'r holl faes parcio
5. Sicrhau bod digon o gyfleoedd yn cael eu darparu ar gyfer mannau tyfu cymunedol, gan gynnwys cynnal y ddarpariaeth o randiroedd i ateb y galw
6. Y dewis o adleoli'r banc ailgylchu (gan greu mwy o leoedd o bosibl)
7. Diweddaru peiriannau talu ac arddangos
8. Potensial o leoedd ychwanegol i barcio yn amodol ar drafodaethau gyda defnyddwyr rhandiroedd, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys



# Cynigion - Lle

## Cymharu niferoedd lleoedd parcio



**Lefelau Cyn Covid**
Y Stryd Fawr a Beaufort Street yr A40
**40 o leoedd parcio**
Maes Parcio Arhosiad Hir
**124 o leoedd parcio**

Cyfanswm
**164 o leoedd parcio**

**Cynigion**
Y Stryd Fawr a Beaufort Street yr A40
**36 o leoedd parcio**
Maes Parcio Arhosiad Hir
**126 o leoedd parcio**

Cyfanswm
**162 o leoedd parcio**

## PL7 Cyfleoedd eraill i barcio oddi ar y stryd

Gweithio gyda Chyngor Sir Powys i ganfod darpariaeth ychwanegol ar gyfer parcio oddi ar y stryd er mwyn sicrhau diwallu anghenion parcio tymor byr a hirdymor. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parcio ar benwythnosau yng Nghanolfan Iechyd Crughywel (yn amodol ar drafodaethau a chytundeb)
- Archwilio dichonoldeb lle parcio newydd ar gyfer gweithgarwch awyr agored ar ymyl gogledd-ddwyreiniol y dref sy'n gysylltiedig â llwybrau cerddwyr/beicwyr i Fynydd Crughywel a Choed Clychau'r Gog
- Trafod gyda Chyngor Cymuned Llangatwg ar egwyddor a dichonoldeb parcio ceir ar gyfer ymwelwyr gweithgareddau awyr agored ar ymyl ffordd Maes Glebe (yn amodol ar ofynion cynllunio a thechnegol)
- Gofyn am gytundeb hirdymor gyda'r Ysgol Uwchradd ar ddarpariaeth parcio ar benwythnosau
- Ystyried safleoedd eraill llai ar gyfer darpariaeth lle parcio oddi ar y stryd







# Cynigion - Lle

## PL8 Safleoedd tir llwyd / ar hap posibl

Os bydd penderfyniadau rheoli eiddo'r sector cyhoeddus a/neu'r sector preifat yn ystod y 15 mlynedd nesaf yn arwain at ddatblygu safleoedd tir llwyd newydd ('safleoedd ar hap'), bydd y Cynllun Lle yn ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r safleoedd hyn i ddiwallu angen tai lleol am gartrefi 1 a 2 ystafell wely yn ogystal â budd cymunedol addas e.e. meysydd parcio, cysylltiadau llwybrau a thirlunio.



Gorsaf Heddlu



Gorsaf Dân



Cyfnewidfa BT

Darlun o ddatblygiad tai posibl gyda lle i barcio ceir ar y safle, os bydd y gyfnewidfa ffôn yn dod ar gael.

# Cynigion - Lle

1. Creu cysylltiadau newydd a gwell mynediad at lecynnau gwyrdd
2. Mabwysiadu dull seiliedig ar le ar gyfer yr A40 a fydd yn troi ffordd yn stryd
3. Ymchwilio i greu cysylltiadau uniongyrchol o'r castell i'r Stryd Fawr a chanol y dref
4. Defnyddio llwyfannau dyrchafedig a chroesfannau dyrchafedig i helpu cerddwyr groesi cyffyrdd
5. Gwella cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r A40 / llwybrau teithio llesol i annog mwy o gerdded a beicio
6. Mynedfa porth o'r de-ddwyrain gyda newidiadau mewn cyflymder, planhigion a nodweddion ffisegol
7. Cysylltiadau teithio llesol i safle Cwrt y Gollen a'r tu hwnt i Gilwern a'r Fenni




Sicrhau gwerth amwynderol Afon Wysg yng Nghrughywel i gefnogi llesiant trigolion lleol a'r economi ymwelwyr ehangach heb amharu ar ei werth amgylcheddol.




Cysylltu llecynnau yn y dref a all warchod a chefnogi natur trwy lwybrau hygyrch gan gynnwys gwella mynediad at lecynnau gwyrdd. Mae'n bwysig hefyd cynnal a rheoli'r llecynnau gwyrdd er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fywyd gwyllt / bioamrywiaeth yn ogystal â hygyrchedd defnyddwyr.

# Cynigion - Lle

### CYMDOGAETHAU

PL9

1. Sicrhau bod llwybrau teithio llesol a llwybrau cerddwyr yn cyrraedd y safon ac yn cysylltu asedau cymunedol lleol

PL10

2. Creu gwelliannau i leoedd chwarae a hamdden, sy'n gynnwys:
   - Parc y Frenhinel Elizabeth II – maes chwarae, pyst pêl-droed, lle ymarfer cwn ac offer campfa awyr agored
   - Dolydd Bullpit – mynediad y tu allan i oriau ysgol o Everest Drive i New Road
   - Gwelliannau bioamrywiaeth, llwybrau addysg, prosiectau peillio

PL11

3. Cyffordd Ffordd Llanbedr
4. Mannau amwynderol a lleiniau priffyrdd – prosiectau bioamrywiaeth a pheillio lleol

PL12

### RHEOLAETH DDINESIG

- Glanhau strydoedd, atal baw cŵn, seddau yng nghanol y dref a lleoliadau mewn cymdogaethau
- Seddau, arwyddion, mapiau tref, dehongli a seilwaith dinesig arall

PL13

**Cysylltiadau Â Llangatwg**
Cysylltiadau teithio llesol yn ôl ac ymlaen i Langatwg
1. Astudiaeth ddichonoldeb o bont teithio llesol sy'n cysylltu Dolydd Bullpit (Crughywel) a Chae Glebe
2. Datblygu gwasanaeth bws lleol sy'n cysylltu â chymunedau o amgylch y dref.

10


11


PL14

Cefnogi Neuadd Clarence gyda'i chynlluniau buddsoddi

12


PL15

Mae angen gwneud astudiaeth ddichonoldeb o dir yn y dref sy'n addas ac ar gael ar gyfer claddu, gan mai lle cyfyngedig sydd yn y fynwent bresennol.

13


PL16

Datblygu cysylltiadau strategol ar gyfer beicio gan gynnwys ffordd osgoi i feicwyr o gyffordd yr A40/A479 trwy Ddôl Bullpit a'r Garn i Elvicta fel rhan o lwybr beicio posibl rhwng Aberhonddu, Gilwern a'r Fenni.

# Cynigion

### Ystyriaethau ynghylch Cynllun Datblygu Lleol y dyfodol

Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 17 Rhagfyr 2013 a daeth yn ddogfen polisi cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n nodi polisïau allweddol a dyraniadau defnydd tir a fydd yn dylanwadu ar ddyfodol ardal y Parc Cenedlaethol ac yn arwain datblygiad hyd at 2022. Wrth baratoi'r Cynllun Lle hwn, rydym yn cydnabod bod angen i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried ei dystiolaeth a'i argymhellion wrth ddatblygu ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Yn ôl yr hyn a ddeallwn, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen Cynllun Lle hon, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn bwriadu cychwyn rhoi'r CDLl ar waith yn 2025.

Felly mae angen ystyried y meysydd polisi canlynol wrth ddatblygu'r CDLl:

### Tai

Mae polisïau LP1 ac LP2 y CDLl mabwysiedig yn ein cyfeirio at y rôl strategol y mae aneddiadau allweddol fel Crughywel yn ei chwarae trwy wasanaethu eu poblogaeth breswyl a'u haneddiadau cyfagos, gan ddarparu cysylltiadau a dylanwadu ar ardaloedd gwasanaeth mwy y tu allan i ffiniau'r Parc.

Mae'r arfarniad materion ac amcanion ar gyfer y CDLl yn tynnu sylw at yr angen am gynigion datblygu mewn aneddiadau allweddol sy'n dangos sut mae eu cynllun yn ymdrin â materion a nodwyd ac yn bodloni'r amcanion y canfuwyd eu bod yn berthnasol i'w cynnig. Mae amcanion sy'n canolbwyntio ar gryfhau Crughywel fel cymuned gynaliadwy, yn benodol ar yr angen am anheddau fforddiadwy, canolradd a hygyrch yn berthnasol o hyd gyda Chofrestr Tai Cyffredin Cyngor Sir Powys yn dangos y galw am dros 140 o deuluoedd sydd eisiau byw yn y dref, heb sôn am rhai sydd hefyd yn chwilio am dai marchnad breifat. Mae llety i'r genhedlaeth hŷn yn y dyfodol hefyd yn flaenoriaeth gan fod preswylwyr sefydledig yn dymuno symud i dai llai ond gan aros o fewn eu cymuned.

Problem arall y canfuwyd ei bod yn atal pobl i fyw yng Nghrughywel yw ail gartrefi sy'n cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer llety gwyliau. Er y gellir ystyried bod cartrefi gwyliau yn rhywbeth negyddol, gallant hefyd ddod â chyfraniad economaidd cadarnhaol i dref fel Crughywel gyda gwariant cysylltiedig ar






# Cynigion

y Stryd Fawr, sefydliadau bwyd a diod lleol ac atyniadau i ymwelwyr. Mae adborth cymunedol yn awgrymu bod polisi cynllunio wedi gwyro'n rhy bell tuag at dwristiaeth ar draul angen lleol ac felly mae angen i ni gyfyngu'r defnydd hwnnw wrth symud ymlaen. Mae polisi cyfredol Datblygiad Priodol Aneddiadau Allweddol KLP2 yn nodi y dylai'r cynigion sy'n cryfhau ac yn gwella'r cynnig twristiaeth yn yr Anheddiad Allweddol fod yn unol â'r strategaeth dwristiaeth gynaliadwy ar gyfer y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys llety newydd addas i westeion a chreu atyniadau/cyfleusterau addas i ymwelwyr newydd. Felly, mae'r angen i ddeall os nad yw ail gartrefi yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy yn bwysig, gyda'r angen am ymchwil trylwyr i ddeall cyflenwad, maint, lleoliad, patrymau rhentu presennol a'r manteision/effaith ar yr gymuned leol.



Pan gyflwynir cais am dai newydd, yn enwedig unedau llai 1 a 2 ystafell wely, dylid rhagdybio o blaid cyfyngu ar feddiannaeth i unig neu brif annedd person (defnydd C3) yn hytrach nag ail gartref (defnydd C5) neu lety gwyliau (defnydd C6).

Felly, mae ystyriaethau allweddol ynghylch tai i'r CDLl eu hystyried, os daw i'r casgliad bod angen diwallu'r angen hwn, yn cynnwys:

- Darparu cartrefi o'r maint iawn, deiliadaeth iawn a'r ystod iawn fforddiadwyedd
- Dull dylunio sy'n parchu'r ymdeimlad o le sy'n nodweddu Crughywel, o ran lleoliad a chymeriad
- Cartrefi sydd wedi'u cysylltu'n dda â gwead a rhwydwaith strydoedd y dref
- Defnyddio seilwaith gwyrdd sy'n cyfrannu at gymeriad tirwedd, gwerth amwynder ac sy'n cefnogi lliniaru/addasu newid hinsawdd e.e. defnydd o ddraenio trefol cynaliadwy
- Nid yw'r datblygiad yn cynyddu'r perygl o lifogydd yn yr anheddiad a'r ardal wledig o'i amgylch
- Nid yw'r datblygiad yn niweidiol i sensitifrwydd bioamrywiaeth lleol
- Anogir y defnydd o ddyluniadau addasadwy sy'n ymateb i newidiadau yng nghylch bywyd preswylwyr.



# Cynigion

### Canol y Dref

Strategaeth Manwerthu SP13 y CDLl mabwysiedig yw cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau manwerthu a nodwyd a chefnogi cynigion sy'n cyfrannu at adfywio Canol Trefi trwy:

- Ddiogelu defnyddiau manwerthu presennol yn y Canolfannau Adwerthu
- Cynnal a gwella amrywiaeth y defnyddiau yn y Canolfannau Manwerthu a nodwyd.

Ers mabwysiadu'r CDLl yn 2013, mae tirwedd manwerthu'r DU wedi newid yn sylweddol wrth i brif strydoedd a chanol trefi addasu a hynny weithiau at ddibenion gwahanol. Mae Crughywel wedi llwyddo i gynnal ei gymeriad a'i apêl annibynnol, gyda'i ddangosyddion bywiogrwydd a hyfywedd yn dangos cyfraddau swyddi eiddo gwag isel iawn gydag amrywiaeth eang o ddefnyddiau a gweithgareddau. Roedd y CDLl mabwysiedig yn 2013 yn cydnabod cynnig manwerthu bach ond amrywiol y dref, gan nodi mai ei amcan yw sicrhau bod canol y dref yn cynnig profiad siopa diddorol i ddenu ymwelwyr a thwristiaid i dreulio amser yn y dref a'r ardal gyfagos yn ogystal â gwasanaethu anghenion y boblogaeth breswyl.

Ni all y Stryd Fawr mewn lle fel Crughywel fod yn hunanfodlon a gorffwys ar ei rhwyfau, ac ac mae angen iddi addasu a rheoli ei chynnig yn gyson fel ei fod yn cynnal angen lleol ac yn cefnogi cadw ac ailgylchu gwariant o fewn yr economi leol. Felly, mae angen i unrhyw gynllun datblygu lleol yn y dyfodol ystyried cynigion o fewn cyd-destun y cynnig unigryw hwn, yn benodol mewn perthynas â maint, math o ddefnydd a lleoliad. Felly, bydd angen i gynigion ddangos nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar graidd manwerthu canol y dref ond eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywiogrwydd tref farchnad annibynnol fel Crughywel. Er enghraifft, mae angen i fuddsoddiad manwerthu newydd barchu graddfa lai unedau canol tref sy'n sail i gymeriad annibynnol a'r amrywiaeth o ddefnyddiau yng Nghrughywel. Cyfyngiadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer manwerthu mwy o faint Mae angen i gyfyngiadau ar geisiadau cynllunio am siopau ac iddynt arwynebedd llawr mwy fod ar waith fel nad oes unrhyw effaith niweidiol ar fusnesau, cyflogaeth leol a chadwyni cyflenwi presennol.













# Yr Hyn a Ddywedodd Pobl - Blaenoriaethau

# Yr hyn a ddywedodd pobl - Blaenoriaethau

Yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth 2024, cynhaliodd y Cynllun Lle ail gam ei ymgynghori â chymuned y dref, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno'r cynigion drafft i'r gymuned leol, gan gynnwys busnesau lleol a sefydliadau'r dref.

## Sut wnaethon ni hyrwyddo

- E-bostio dros 250 o ddeiliaid tai, busnesau a grwpiau cofrestredig
- Gosod posteri mewn canolfannau cymunedol a busnesau canol y dref
- Postio ar gyfryngau cymdeithasol – Facebook, Twitter, Linkedin lleol
- Diweddaru gwefan y Cynllun Lle www.crickhowellplaceplan.org gyda'r cynigion a mynediad at arolwg ar-lein ar gyfer sylwadau.

## Sut wnaethon ni ymgynghori

- Cynhaliwyd gweithdy ar 29 Ionawr i fusnesau canol y dref a'r trigolion hynny sy'n byw yn ardaloedd y Stryd Fawr a Stryd Beaufort i rannu opsiynau dylunio a derbyn ymateb
- Cynaliwyd ymgynghoriad dau ddiwrnod yn Llyfrgell y Dref, Silver Lane ar 23 a 24 Chwefror
- Darparwyd holiadur ar-lein o 23 Chwefror hyd at 10 Mawrth a gafodd ei hyrwyddo trwy e-bost a thudalennau cyfryngau cymdeithasol lleol; rhannwyd cardiau arolwg hefyd yn y sesiwn galw heibio gymunedol
- Darparwyd copïau papur o'r arolwg cymunedol yn y llyfrgell i'w casglu, eu cwblhau a'u cyflwyno.




# Yr hyn a ddywedodd pobl - Blaenoriaethau

## Pwy a gymerodd ran

- 180 people attended the Town library event on the 23rd and 24th February;
- 119 people completed the online version of the survey;
- 6 people completed the paper version of the survey;
- 6 email correspondences were received on the Place Plan.

## Pwy a lanwodd yr holiadur?





## Pa gwestiynau wnaethon ni eu gofyn?

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno cynigion a gofyn i'r gymuned leol raddio gweledigaeth y Cynllun Lle, a'r amrywiol gynigion sy'n ymwneud â Hinsawdd, Dŵr, Natur, Pobl a Lle.

Yn yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb, bu pobl yn trafod cynigion penodol gydag aelodau o dîm y Cynllun Lle, gan gynnwys Cynghorwyr Tref Crughywel.

Roedd yr arolwg cymunedol yn gofyn hefyd i bobl ddewis opsiwn a ffefrir yn benodol ar gyfer naill ai symud neu gadw heneb y Ffynnon fel rhan o gynigion y Stryd Fawr.


Bu'r Cyngor Tref hefyd yn holi barn am doiledau cyhoeddus y dref pe bai tâl yn cael ei godi amdanynt ar ddefnyddwyr.



# Yr hyn a ddywedodd pobl - Blaenoriaethau

## Ymgynghoriad Wyneb yn Wyneb

Pan siaradodd pobl gydag aelodau tîm y Cynllun Lle yn yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb, y meysydd a drafodwyd oedd:




### Y Stryd Fawr

Dyma oedd prif bwnc y trafod gyda'r sylwadau'n amrywio o "gadewch lonydd iddi" i gael gwared ar y planhigion i alwad am ei chyfyngu i gerddwyr yn unig. Edrychodd pobl ar sut y gallwn ddarparu lleoedd parcio arhosiad hir ychwanegol oddi ar y stryd, ailgyflwyno arhosiad 1 awr ym maes parcio Greenhill Way (gorau oll am ddim neu am dâl o £1) a fyddai'n tynnu pwysau oddi ar y parcio ar y stryd o fewn y Stryd Fawr a Stryd Beaufort.

Lle roedd consensws oedd ar y cynigion i ymestyn palmentydd oherwydd y culni presennol yn enwedig ar ochr ddwyreiniol y Stryd Fawr, a hefyd y groesfan i gerddwyr wrth y gyffordd â Silver Lane. Roedd y cwestiwn a ddylid symud heneb y ffynnon neu beidio o yn troi o gwmpas cost cynnig o'r fath, cael gwared ar barcio ar y stryd ac a fyddai'n arwain at draffig yn ciwio ai peidio.

Roedd yna gyfran o'r gymuned sydd eisiau i'r stryd ddychwelyd yn ôl i ddyddiau cyn Covid gyda chymaint o barcio ar y stryd â phosib. Barn i'r gwrthwyneb oedd os byddai'r ddarpariaeth parcio oddi ar y stryd yn gwella, dylai'r Stryd Fawr fod ar gyfer deiliaid bathodynnau glas yn unig ac ar gyfer llwytho/dadlwytho gyda chyfleoedd i ymestyn y parth cyhoeddus a chreu mwy o le i gerddwyr.

Roedd mwyafrif y bobl yn gweld rhesymeg mewn cadw'r groesfan sebra y tu allan i Webbs os oedd hyn yn gweithio gyda llwyfan dyrchafedig i gerddwyr a chroesfan ychwanegol y tu allan i siop Jehu. Mae pobl yn dal i weld yr awydd naturiol i groesi'r ffordd o'r Ganolfan Adnoddau a Gwybodaeth i ochr Fferyllfa Boots ond yn cydnabod mai dim ond hyn a hyn o groesfannau cerddwyr y gallwch eu cael o fewn darn penodol o stryd.

Byddai angen i bob un o'r uchod gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan Gyngor Sir Powys  mewn perthynas â newidiadau i'r Stryd Fawr a chan Asiantaeth Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw welliannau ar yr A40.

## Yr hyn a ddywedodd pobl - Blaenoriaethau

### Yr A40

Trafodwyd ansawdd amgylchedd ffordd yr A40 o safbwynt dwysedd swm y traffig, cyflwr ei harwyneb, sŵn, llygredd aer ac ansawdd amgylcheddol gwael. Gan fod ffordd osgoi wedi cael ei diystyru, roedd angen argyhoeddi mynychwyr yr ymgynghoriad y byddai dwysedd y traffig yn cael ei leihau trwy droi'r ffordd yn stryd. Mae rhai pobl yn weld y rhinweddau o ran creu llwybr teithio llesol trwy ganol y dref ond mae sut y gellir darparu ar gyfer hyn, pan fydd pobl eisiau parcio ar y stryd, yn cael ei weld fel her. Nodwyd bod problem ar y gyffordd â Ffordd Llanbedr mewn perthynas â cheir sydd wedi parcio gan achosi tagfeydd gan arwain at anawsterau i gerddwyr groesi.

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

Roedd y rhai oedd yn bresennol yn gefnogol i'r fenter i archwilio cynllun trafnidiaeth gymunedol sy'n cysylltu cymunedau pellennig â Chrughywel a hefyd yn awgrymu y gallai gwasanaeth o'r fath gefnogi dosbarthu parseli lleol, presgripsiynau, dosbarthu bwyd lleol a buddion cymunedol eraill.

### Lle i bobl ifanc

Nodwyd yr angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc gan rieni a nifer o bobl ifanc gan gynnwys gofod dan do yn ogystal â seddi awyr agored ar y stryd fawr i blant ysgol amser cinio ac offer addas i wahanol oedran ym mharciau'r dref.

### Perygl Llifogydd

Roedd rhai o'r farn fod angen i'r Cynllun Lle edrych ar ffyrdd o wneud Crughywel yn fwy abl i wrthsefyll perygl o lifogydd yn y dyfodol yn ardal Stryd y Bont a Ffordd Newydd, yn ogystal ag ymhellach i lawr ar Ystâd Ddiwydiannol Elvicta. Yn Yn ogystal â mesurau ffisegol i atal llifogydd, trafodwyd cyflwyno cynlluniau draenio trefol cynaliadwy trwy ddefnyddio coed a phlanhigion gerddi glaw.

### Cysylltiadau â Llangatwg

Roedd rhai a ddaeth i'r cyfarfod o Langatwg yn gweld gwerth mewn sefydlu gwell cysylltiadau cerdded a beicio, gwell trafnidiaeth gyhoeddus a ffyrdd o ddarparu gwasanaethau ar y cyd ar gyfer y ddwy gymuned.















# Yr hyn a ddywedodd pobl – Blaenoriaethau

### Yr Arolwg Cymunedol


Caiff rhai o'r negeseuon allweddol o'r arolwg cymunedol eu hamlinellu isod a'u dangos yn y siartiau: I

### I ba raddau ydych chi'n cytuno â gweledigaeth arfaethedig ein Cynllun Lle ar gyfer Crughywel?

### Gweledigaeth y Cynllun Lle


Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn tueddu i gytuno â gweledigaeth y Cynllun Lle, er bod gan rai pobl amheuon ynghylch a all helpu Awdurdod y Parc Cenedaethol i gyrraedd eu targed sero net allyriadau tŷ gwydr.

Mae pobl yn sgorio'r Weledigaeth 3.5/5.



# Yr hyn a ddywedodd pobl – Blaenoriaethau


### Sut ydych chi'n graddio pwysigrwydd a bodlonrwydd ynghylch ein cynigion sy'n canolbwyntio ar Hinsawdd a Dŵr, gyda 5 yn uchel ac 1 yn isel.




## Hinsawdd a Dŵr

- Mae monitro ansawdd dŵr Afon Wysg a chefnogi prosiect Ein Bwyd 1200 yn cael eu gweld fel blaenoriaethau allweddol
- Mae sylwadau agored yn cynnwys:
  - Mae angen dull ehangach o sero net arnom – ni alla Crughywel wneud hyn ar ei ben ei hun
  - Does dim angen plannu coed yng nghanol y dref - mae gennym ddigon o gwmpas y dref
  - Mae arnom angen cynigion manylach
  - Mae angen i ni annog llai o wastraff ac ailddefnyddio ein nwyddau.
  - Mae angen i ni reoli dŵr i fyny'r afon o'r bryniau

### Sut ydych chi'n graddio pwysigrwydd a bodlonrwydd ynghylch ein cynigion sy'n canolbwyntio ar fyd Natur, gyda 5 yn uchel ac 1 yn isel.





## Natur

- Mae archwilio cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a phleillio a chadw a chefnogi rhandiroedd canol y dref yn cael eu hystyried fel blaenoriaethau allweddol ac yna gwelliannau i'r Parc uchaf a gwneud gwell defnydd o fannau gwyrdd llai yng nghanol y dref
- Mae sylwadau agored yn cynnwys:
  - Mae gan Everest Drive bwyntiau mynediad eisoes
  - Creu cysylltiadau gwell ger Capel y Bedyddwyr i lawr wrth y bont
  - Hoffi iard drefol ger y llyfrgell
  - Nid yw natur yn mynd i ddatrys problemau parcio
  - Hoffem gael perllan gymunedol gyda meinciau

# Yr hyn a ddywedodd pobl - Blaenoriaethau

**Sut ydych chi'n graddio pwysigrwydd a bodlonrwydd ynghylch ein cynigion sy'n canolbwyntio ar Bobl, gyda 5 yn uchel ac 1 yn isel.**




## Pobl

- Y farn yw ei bod yn bwysig blaenoriaethu safleoedd tir llwyd canol y dref ar gyfer tai sy'n fforddiadwy ac o'r maint cywir law yn llaw â chefnogi prosiect Ein Bwyd 1200, gydag ynni lleol a chyfathrebu tref cryfach yn dilyn yn agos
- Mae sylwadau agored yn cynnwys:
  - Cwestiwn ynghylch rhoi adnoddau i'r rhain
  - Lleihau perchnogaeth ail gartrefi/tai gwyliau drwy gynyddu'r Dreth Gyngor
  - Tai fforddiadwy yn flaenoriaeth
  - Heb gael fy argyhoeddi am le cyd-weithio, mae pobl yn defnyddio caffis

**Sut ydych chi'n graddio pwysigrwydd a bodlonrwydd ynghylch ein cynigion sy'n canolbwyntio ar y Lle, gyda 5 yn uchel ac 1 yn isel.**




## Lle

- Mae cefnogi Neuadd Clarence gyda chynllun buddsoddi, gwella'r maes parcio arhosiad hir, gwella glendid a canol y dref a'r rheolaeth ohono, ac ystyried y gwaith o ailddatblygu safle BT Exchange yn y dyfodol yn cael eu gweld fel clwstwr o flaenoriaethau. Nid yw gwelliannau'r Stryd Fawr ymhell ar ei hôl hi yn ogystal ag ailddatblygu Gorsaf yr Heddlu os yw'n cau.
- Mae sylwadau agored yn cynnwys
  - Increase long stay parking for visitors and walkers
  - Cynyddu lleoedd parcio arhosiad hir i ymwelwyr a cherddwyr
  - Peidiwch â symud yr heneb – gadewch y Stryd Fawr fel y mae
  - Ceir wedi parcio ar Ffordd Llanbedr yw'r broblem
  - Gwnewch y Stryd Fawr yn lle ar gyfer digwyddiadau gyda'r nos
  - Cadw gwyliadwriaeth o gymeriad y lle
  - Yn siomedig o ddarllen mai'r car sy'n rheoli, gallai'r syniadau ar gyfer y Stryd Fawr fod yn fwy creadigol

# Yr hyn a ddywedodd pobl - Blaenoriaethau

**Mae'r cynigion ar gyfer y Stryd Fawr yn dangos nifer o opsiynau ar gyfer safle'r Ffynnon Goffa.**




**Yr Opsiwn a Ffefrir – Cadw'r Ffynnon yn ei safle presennol**




## Y Ffynnon Goffa

Pan ofynnwyd i bobl ystyried yr opsiynau ar gyfer safle'r Ffynnon Goffa, sy'n cynnwys ei chadw yn ei lleoliad presennol neu iddi gael ei symud i'r de ac i'r gogledd o'r Sgwâr, nodwyd y dewisiadau canlynol:


- Symud y Ffynnon i'r Gogledd o'r Sgwâr – 14% (11 o bobl)
- Symud Ffynnon i'r De o'r Sgwâr – 11% (9 o bobl)
- Cadw'r Ffynnon yn ei safle presennol – 75% (61 o bobl).

I weld sylwadau manwl o'r ymgynghoriad, ewch i www.crickhowellplaceplan.org

# Dangos Llwyddiant

# Dangos Llwyddiant

Mae'r angen i ddeall beth fydd llwyddiant yn bwysig pan fyddwch yn galluogi ac yn cyflawni newid o fewn lle fel Crughywel. Mae'n helpu i ddeall y canlyniadau rydych chi'n eu cyrraedd a'r broses y mae angen i chi eu dilyn i gyflawni'r rhain. Mae darlunio llwyddiant hefyd yn dda ar gyfer cymhelliant ac ysbrydoliaethgan ddiben cyffredin, gan adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas. Mae hefyd yn bwysig dangos i'r sefydliadau hynny sy'n ariannu prosiectau, eich bod yn cyflawni'ch allbynnau a'ch canlyniadau ac yn dangos enillion ar buddsoddiad. Mae'r tabl isod yn dangos yr allbynnau a'r canlyniadau hynny a all helpu i gyfrannu at rai o nodau Rheoli Y Bannau yn ogystal â thargedau lleol.



## Hinsawdd

### Allbynnau Bannau Brycheiniog

- Lefelau llygryddion niweidiol yn yr awyr yn unol â lefelau diogel ar gyfer bodau dynol / diogelu'r amgylchedd
  - Sylffwr deuocsid – 20μg/m³
  - Ocsidau nitraidd – 30μg / m³ Osôn – 3000 ppb,
  - Ammonia – 1μg/m³ N – 10- 20 kg / ha/y flwyddyn
  - Asid – 0.35keq/ha/y flwyddyn

### Allbynnau lleol eraill

- Cyfraddau uwch o ailgylchu lleol
- Cynnydd mewn cerdded, beicio a defnyddio moddau heblaw cerbydau

### Dulliau Cofnodi

- Cyfrifon parthau rheoli ansawdd aer
- Dadgyfuno cyfraddau ailgylchu Cyngor Sir Powys i lefel cymuned
- Astudiaethau WHCAR – cyfrifon moddau a chyfrifwyr awtomatig mewn ffyrdd

### Canlyniad

- Mae dwysedd traffig wedi lleihau, gwell ansawdd aer a buddion economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol
- Mae lleihad mewn gwastraff gyda thrigolion yn ailddefnyddio ac ailgylchu deunydd dyddiol

# Dangos Llwyddiant

## Dŵr

| Allbynnau Bannau Brycheiniog | Allbynnau lleol eraill | Dulliau Cofnodi | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| • Cymharu lefelau maethynnau dwr ffres â thargedau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br>• Statws cyffredinol y corff dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr) | • Dim | • Monitro ansawdd dŵr | • Adfer ansawdd lefelau maethynnau, llif dŵr ac ecosystemau<br>• Pobl yn anadlu'n ddiogelu mewn dyfroedd afonydd<br>• Pobl yn caru eich afonydd<br>• Mae'r dref yn fwy gwydn rhag llifogydd gan wella ansawdd bywyd ei thrigolion |

## Natur

| Allbynnau Bannau Brycheiniog | Allbynnau lleol eraill | Dulliau Cofnodi | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| • Achosion o rywogaethau ymledol anfrodorol a gofnodir o fewn y Parc Cenedlaethol (nifer)<br>• Arwynebedd y parc yn ôl prif ddefnydd tir (ha)<br>• Nifer o adar tir amaeth (nifer)<br>• Cyflwr cynefin prif fathau o gynefinoedd | • NIfer o bobl sy'n manteisio ar lecynnau agored ac yn ymwneud â seilwaith gwyrdd<br>• Nifer o ddefnyddwyr llwybrau | • Archwiliadau cynefinoedd a bioamrywiaeth | • Lleihau bygythiadau, adfer cynefinoedd<br>• Defnydd tir cynaliadwy<br>• Adfer cynefin a ddiraddiwyd<br>• Newid defnydd tir<br>• Ffermio Cynaliadwy<br>• Adfer natur |

# Dangos Llwyddiant

## Pobl

### Allbynnau Bannau Brycheiniog

- Tlodi tanwydd (angen gwario 10% neu fwy o incwm ar ynni)
- Tlodi bwyd – defnyddio banc bwyd
- Nifer y parseli a ddosberthir fel % o'r boblogaeth
- Canran y plant sy'n dangos ffordd iach o fyw
- Cymhareb cyflogau i brisiau tai
- Rhestrau aros am dai
- Newid yn y dosbarthiad poblogaeth
- Cyfraddau digartrefedd fel canran o'r boblogaeth ar gyfer ardaloedd y Prif Awdurdod Lleol
- Mae'r bwlch rhwng cyflog canolrif Prydain a chyflogau yn y Parc yn cau'n sylweddol i lefel isel iawn.
- Lleihau nifer yr achosion o lifogydd sy'n achosi niwed i lesiant unigolion a'r gymuned a thuedd o leihau llifau penllanw a gofnodwyd mewn cymunedau agored i niwed
- Amrywiaeth ac ansawdd gwasanaethau a chyfleusterau lleol
- Nifer o ddigwyddiadau cymunedol traddodiadol
- Trafnidiaeth gyhoeddus ar gael i ddiwallu anghenion o ddydd i ddydd
- Canfyddiad unigolion o'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- Nifer o rwydweithiau cymdeithasol - unigrwydd

### Allbynnau lleol eraill

- Nifer o bobl sy'n economaidd weithgar
- Nifer o grwpiau cymunedol a gefnogir
- Dilyniant a diddordeb digidol (gwefan)
- Nifer o bobl sy'n gwirfoddoli
- Nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn chwarae

### Dulliau Cofnodi

- Stats Cymru
- Data tai Cyngor Sir Powys
- Data digwyddiadau llifogydd CNC
- Data Monitro Canol Trefi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Holiaduron democratiaeth leol
- Archwiliadau cymunedol lleol
- Dadansoddi gwefannau
- Data gwirfoddoli PAVO

### Canlyniad

- Mae Crughywel yn gynhwysol i bawb ac yn cefnogi llesiant cymunedol, rhwydweithiau a llwybrau seiliedig ar bobl
- Cyflawnwyd cymuned gytbwys o ran oedran gan amrywiaeth o gyflenwad tai sy'n diwallu anghenion cylch bywyd trigolion
- Man lle mae trigolion yn dewis teithio drwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau lleol

# Dangos Llwyddiant

## Lle

### Allbynnau Bannau Brycheiniog

- Cynnydd mewn cerdded, beicio a defnyddio dulliau di-gerbyd
- Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i'r parc a theithio yn ystod arhosiad
- Lefelau llygryddion niweidiol yn yr awyr yn unol â lefelau diogel ar gyfer bodau dynol / diogelu'r amgylchedd
  - Sylffwr deuocsid – 20µg/m³
  - Ocsidau nitraidd – 30µg / m³ Osôn – 3000 ppb,
  - Ammonia – 1µg/m³ N – 10- 20 kg / ha/y flwyddyn
  - Asid – 0.35keq/ha/y flwyddyn

### Allbynnau lleol eraill


- Cynhyrchu a dosbarthu mwy o fwyd yn lleol, manteision iechyd o ganlyniad
- Nifer o gadwyni cyflenwi lleol a gefnogwyd
- Cynyddu cyfranogiad yn y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol
- Cynyddu lefelau gweithgarwch mewn chwarae, hamdden anffurfiol ac ymarfer corff gyda manteision iechyd o ganlyniad
- Gwella cyflwr y prif fathau o gynefinoedd gydag ardaloedd bioamrywiaeth lleol y dref
- Nifer o bobl sy'n cael mynediad at lwybrau presgripsiynu cymdeithasol
- Bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref – amrywiaeth o ddefnydd, nifer yr ymwelwyr, cyfraddau eiddo gwag, amser a dreulir, ffyniant a llesiant lleol
- Cynnydd yn y defnydd o fysiau lleol o fewn y dref a'r ardal wledig a gwella mynediad at wasanaethau lleol o ganlyniad

### Dulliau Cofnodi

- Astudiaethau WHCAR – cyfrifon moddol ac ATCs mewn ffyrdd
- Data teithwyr bws
- Cyfrifon parthau rheoli ansawdd aer
- Data cyflenwyr lleol
- Data Stats Cymru
- Archwiliadau cynefinoedd a bioamrywiaeth
- Data Monitro Canol Trefi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

### Canlyniad

- Cynnydd mewn balchder dinesig a chynnal ymdeimlad o le
- Llecynnau, strydoedd a thir sy'n cefnogi'r agenda newid hinsawdd ac sy'n gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau
- Twf mentergarwch yn fewnol yn y dref, gan ddefnyddio gwybodaeth leol, asedau amgylcheddol a gweithio mewn partneriaeth



# Ffyrdd o Weithio

# Ffyrdd o Weithio

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gyflawni datblygu cynaliadwy.


Dylai hyn sicrhau bod ein hanghenion presennol ni yn cael eu diwallu heb amharu ar genedlaethau'r dyfodol. Wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, mae'n rhaid i chi gyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion. Dangosir y saith nod llesiant yn y diagram gyferbyn tra bod ein nodau llesiant ein hunain wedi'u hymgorffori yn y cynllun hwn.

Wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau a chymryd camau i gyflawni ein hamcanion llesiant, rhaid i chi ystyried a hefyd ddangos bod yr egwyddorion llywodraethu cynaliadwy canlynol yn ein penderfyniadau wedi'u gweithredu:

- Cydbwyso anghenion tymor byr ag anghenion hirdymor.
- Defnyddio dull integredig, gan gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Cynnwys eraill ac ystyried eu barn.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Darparu adnoddau ar gyfer atal problemau.

**INTEGREIDDIO**
Mae'r angen i ddod â Chrughywel at ei gilydd mewn ystyr ffisegol yn allweddol i'w rôl fel lle i fyw, dysgu, a gweithio ynddo yn ogystal ag ymweld. Mae hyn yn ymwneud ag integreiddio safleoedd ac adeiladau trwy strydoedd sy'n hygyrch ac yn apelgar.

**YR HIRDYMOR**
Mae'r ddogfen Gweledigaeth a Strategaeth hon yn ymwneud â chyflwyno Crughywel a'i chymuned i nifer o gynigion canolig a mwy a fydd yn gofyn am ddatblygu sylweddol a thrafodaethau cyn y gall unrhyw weithredu ddechrau. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi rhai prosiectau enillion cyflym a all feithrin hyder cyn i'r buddsoddiadau mwy ddigwydd.




**LLESIANT**
Mae lleoedd fel Crughywel yn dibynnu ar amrywiaeth a chyfle cyfartal. Mae angen i'r gymuned allu cael mynediad at wasanaethau sylfaenol, cyngor, gofal iechyd yn ogystal â chael lle i gymdeithasu a rhyngweithio. Mae nifer o gynigion yn ymwneud â byw'n iach, gwasanaethau cymunedol a gallu cael mynediad at lecynnau gwyrdd.

**CYDWEITHIO**
Mae angen cyflawni'r Weledigaeth a'r Strategaeth hon trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth aml-sectorol ac ar lefel strategol a lleol.

**CYMRYD RHAN**
Nod y ddogfen hon yw galluogi newid a fydd yn gofyn am weithgarwch cydweithredol a gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau ac ar lefelau strategol a lleol.

# Ffyrdd o Weithio

## Blaenoriaethau wrth Amserlennu

Er mwyn datblygu'r canlyniadau o'r Cynllun Lle , bydd y Cyngor Tref yn llunio cynllun gweithredu gyda blaenoriaethau, amserlenni a awgrymir a'r partneriaid y bydd angen i ni weithio gyda nhw i gyflawni'r rhain. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd unigolion sydd â diddordeb mewn gweithio gyda ni ar brosiectau sy'n dod i'r amlwg.

## Datblygu a Gweithredu

Mae gweithredu'r Cynllun Lle hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn dod â'u hamcanion unigol eu hunain i mewn i set gyfunol o gynigion sydd o fudd i'w gilydd ac o fudd i ganol tref Crughywel a'i chymunedau cyfagos. Mae'r cyfleoedd yn y Cynllun hwn yn gofyn am wahanol gymysgeddau o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer datblygu a gweithredu.

Mae'r prif ffactorau llwyddiant cyflawni o fewn lleoliad Cynllun Lle yn cynnwys:
- Deall cryfderau unigol gan gynnwys gwybodaeth, arbenigedd ac asedau ffisegol a sut y gellir cydgyfeirio'r rhain
- Cyfathrebu a chydlynu ar lefel strategol a gweithredol.
- Gweithio i god dylunio cyffredin sy'n sicrhau cysondeb mewn amgylchedd adeiledig a mannau cyhoeddus ac sy'n rhoi cyrraedd targedau newid hinsawdd a chynaliadwyedd perthnasol.
- Cysylltu anghenion trigolion lleol â llwybrau amrywiol at ddysgu, iechyd a llesiant, gweithgarwch corfforol a chyflogaeth.





## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lwyddiant lle fel cymuned. Mae'n amlwg bod ymdeimlad cryf o gymuned sydd eisoes ag amrywiaeth o grwpiau yn ganolog i fywyd Crughywel ac yn cyfrannu at lesiant y lle.

Er mwyn adeiladu ar y gwerthoedd hyn, mae angen i'r Cynllun Lle fabwysiadu dull partneriaeth sy'n ystyried grwpiau cymunedol lleol, ar lawr gwlad yn ogystal â'r sector busnes lleol, fel bod cynghrair deg yn cael ei ffurfio rhwng y sector cyhoeddus, preifat, cymunedol / gwirfoddol. Mae partneriaeth yn dod ag amrywiaeth o brofiad, gwybodaeth a sgiliau, yn helpu gyda chyfathrebu ac yn dangos i ddarpar gyllidwyr fod strwythur ar waith sy'n atebol ac sy'n gallu galluogi cyflawni.

Mae angen trafodaeth bellach rhwng sefydliadau ar ba ffurf y mae'r bartneriaeth, fel bod ganddi bwrpas, nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt, y raddfa gywir o weithredu,  gwerthoedd a ffyrdd o weithio. Byddai angen cynllunio partneriaeth o'r fath fel ei bod yn:
- Cefnogi, galluogi a chyd-gyflawni camau gweithredu seiliedig ar le yng Nghrughywel
- Darparu lleoliad cyffredin i sefydliadau rannu syniadau ac atebion.
- Hyrwyddo Crughywel o fewn a thu allan i'r gymuned leol ac yn
- Gwneud y lle yn well yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol.



**Diolch i'r holl unigolion a sefydliadau a gyfrannodd at y Cynllun hwn**

**Diolch yn fawr**

Bannau Brycheiniog